Chwarae Cymru
Play Wales



# Datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae

Canllawiau gwaith chwarae – cyfrol 3

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru
Play Wales

ISBN: 978-1-914361-05-0

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo drwy unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Golygu a deunydd ychwanegol wedi ei gynhyrchu gan Ludicology.

Deunydd ychwanegol wedi ei ddarparu gan Dîm Cefnogi Ieuenctid a Chwarae Cyngor Wrecsam

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AF

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

Mehefin 2021

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 5

Sgiliau a rhinweddau personol a phroffesiynol uwch-weithiwr chwarae 8

**Cynllunio ar gyfer chwarae** 9

Gwahanol fathau o gynllunio 9

Cynllunio gyda llinellau amser 10

Dod i adnabod y gymuned leol 10

Archwiliadau cymunedol lleol gyda'r plant 10

Lleoliad, lleoliad, lleoliad 11

Cael yr elfennau sylfaenol yn iawn 12

Meddwl am amrywiaeth a chynhwysiant 13

Model Cymdeithasol Anabledd 13

Dyluniad cyffredinol 13

Offer arbenigol 14

Sicrhau lefelau staffio digonol 14

Recriwtio a dethol staff 15

Sicrhau ariannu digonol 16

Sicrhau adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth 17

Rhannau rhydd 18

Crefft lloffa 18

Cynllunio ar gyfer adnoddau penodol 19

Hyrwyddo'r ddarpariaeth 19

Cynllunio ar gyfer gwibdeithiau 20

Cynllunio gwaith cynnal a chadw, atgyweiriadau a gwiriadau safle 20

**Datblygu fframwaith sefydliadol** 21

Datblygu polisïau a gweithdrefnau 22

Chwarae a hawliau plant 22

Cydraddoldeb 23

Iechyd a diogelwch 25

Asesu risg-budd 26

Safonau offer chwarae 27

Asesu risg-budd dynamig 28

Gwiriadau safle 28

Pryderon rheoli risg eraill i fod yn ymwybodol ohonynt 29

Yswiriant 29

Diogelu plant 29

Gweithdrefnau amddiffyn plant 30

Chwythu'r chwiban 30

Honiadau yn erbyn staff neu wirfoddolwyr 30

Diogelu data a chyfrinachedd 31

Gwaith papur 32

**Gwerthuso ansawdd, gwella arfer 34**

Pa mor ddeniadol yw'r man chwarae i blant? 34

Safbwyntiau plant 34

Perchenogaeth 35

Risgiau 35

Gweithwyr chwarae fel archwilwyr 36

Dewis offeryn gwerthuso 37

**Casgliad 38**

**Cyfeiriadau 38**

# Cyflwyniad

**Rydym wedi cynhyrchu pedwar canllaw gwaith chwarae, gyda'r teitlau hynod greadigol cyfrol 1, 2, 3 a 4, fel casgliad o adnoddau ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio'n bennaf, neu fel rhan o'u rôl, gyda phlant sy'n chwarae. Yn ogystal, efallai y byddant o ddiddordeb i bobl sydd ddim yn gweithio gyda phlant sy'n chwarae ond sydd wedi eu cyfareddu gan chwarae plant ac sydd am ddysgu mwy.**

Mae'r canllawiau gwaith chwarae'n cyflwyno ac yn archwilio rhai o'r damcaniaethau, cysyniadau, syniadau ac arferion craidd sydd wrth galon gweithio gyda phlant sy'n chwarae. Nid yw'r canllawiau'n gyfrif cyflawn o bell ffordd. Mae plant a'u chwarae'n gymhleth, fel y mae'r llu o ffyrdd y gallwn weithio gyda'u chwarae, felly mae llawer mwy i'w ddysgu o hyd.

Er mwyn paratoi i weithio gyda phlant sy'n chwarae, mae'r canllawiau'n cychwyn gyda cyfrol 1 sy'n edrych ar rai o'r damcaniaethau sy'n dylanwadu ar y modd y mae oedolion yn deall plant, rôl chwarae a phlentyndod, yn ogystal ag egwyddorion gweithio gyda phlant sy'n chwarae. Wedi datblygu rhywfaint o ddealltwriaeth sylfaenol, mae cyfrol 2 yn archwilio'r llu o ffyrdd y gall y bobl hynny sy'n gweithio gyda phlant sy'n chwarae greu neu gyfoethogi amgylcheddau fel eu bod yn addas ar gyfer chwarae, ac ar arferion er mwyn cefnogi plant sy'n chwarae'n uniongyrchol. Yn dilyn hyn, mae cyfrol 3 yn edrych ar gynllunio, sefydlu a rheoli prosiect chwarae wedi ei staffio, tra bo cyfrol 4 yn delio yn ddyfnach gyda materion sy'n ymwneud â rheoli staff a gweithio gydag oedolion eraill.

Trwy'r canllawiau hyn rydym yn defnyddio'r termau gwaith chwarae a gweithwyr chwarae. Efallai y gellir deall gwaith chwarae orau fel y grefft o weithio gyda phlant sy'n chwarae. Mae gwaith chwarae yn rôl sensitif a myfyriol sy'n gwerthfawrogi chwarae er ei fwyn ei hun, nid dim ond fel modd i gyflawni'r diben. Mae gwaith chwarae yn blentyn ganolog yn ogystal ag yn chwarae ganolog, yn canolbwyntio ar alluogi plant i gyfarwyddo eu profiadau chwarae eu hunain ac yn ceisio sicrhau mai chwarae yw prif destun y berthynas oedolyn-plentyn.

Mae gwaith chwarae yn anelu i greu amgylcheddau sy'n addas er mwyn i chwarae o ansawdd da ddigwydd ac mae'n ceisio lleihau unrhyw anghydbwysedd grym rhwng plant ac oedolion, gan anelu i greu perthynas weithio gyfochrog yn hytrach na'r un hierarchaidd fwy cyffredin rhwng oedolion a phlant. I lawer, gwaith chwarae yw eu proffesiwn, eu prif rôl gwaith, a'u galwedigaeth – i eraill mae'n rôl y maent yn ei chyflawni fel rhan o gyfrifoldebau ehangach eraill. Yn yr adnoddau hyn, mae'r term gweithiwr chwarae'n cyfeirio at bob un sy'n hwyluso a chefnogi chwarae plant.

Mae **Cyfrol 1: Plentyndod, chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae** yn darparu trosolwg o'r etheg broffesiynol a'r safbwyntiau damcaniaethol sy'n sail i arfer gwaith chwarae a safbwyntiau gwaith chwarae ar blentyndod. Wrth gwrs, mae llawer mwy i'w ddysgu am blant, chwarae a gwaith chwarae ond mae cynnwys y gyfrol hon yn hanfodol ar gyfer pobl sy'n ystyried gweithio gyda phlant sy'n chwarae.

Mae'r adran gyntaf – Chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae (1 a 2) – yn archwilio rhai o'r syniadau, y cysyniadau a'r damcaniaethau datblygiad plant a phlentyndod sydd wedi dylanwadu, ac sy'n dal i ddylanwadu, ar ddealltwriaeth o blant a'u chwarae ac sydd, o ganlyniad, yn bwysig i bobl sy'n arfer gwaith chwarae.

Mae adran dau – Rhoi Egwyddorion Gwaith Chwarae ar Waith – yn edrych ar y rôl gwaith chwarae a sut mae'n effeithio ar, yn ogystal â chael ei effeithio gan, yr amgylchedd a'r plant. Mae'n ystyried sut y rhoddir blaenoriaeth i'r broses chwarae a sut y mae gweithwyr chwarae'n cydbwyso buddiannau datblygiadol chwarae gyda lles plant.

Mae **Cyfrol 2: Ymarfer gwaith chwarae** yn rhoi cyfle i'r bobl hynny sy'n newydd i waith chwarae i archwilio rhai o'r syniadau, y cysyniadau a'r fframweithiau, a'r defnydd ymarferol o ddulliau ac agweddau sydd wrth galon arfer gwaith chwarae. Mae adran un yn ystyried cysyniadau fel fforddiannau a'r amgylchedd affeithiol, sy'n galluogi pobl sy'n arfer gwaith chwarae i ddynodi, creu neu gyfoethogi mannau ar gyfer chwarae. Yna, cyflwynir Bob Hughes, ysgolhaig ac ymarferydd blaenllaw ym maes gwaith chwarae, ynghyd â'i dacsonomi o fathau chwarae a'i syniadau am fecanweithiau chwarae. Mae hyn o fudd er mwyn gwerthfawrogi'r amrywiol ffurfiau a chyfuniadau o ffurfiau y gall chwarae eu cymryd ond hefyd er mwyn datblygu iaith gyffredin i'w defnyddio wrth

siarad am chwarae plant. Rydym hefyd yn archwilio ei gwricwlwm gwaith chwarae, fframwaith defnyddiol ar gyfer meddwl am y cwmpas o gyfleoedd ar gyfer chwarae y dylai'r rheini sy'n arfer gwaith chwarae eu cynnig.

Wedi edrych yn helaeth ar waith anuniongyrchol gyda phlant sy'n chwarae yn adran un, mae adran dau yn edrych ar ystod o syniadau sydd wedi, ac sy'n dal i ddylanwadu ar waith uniongyrchol gyda phlant sy'n chwarae. Bydd yr adran hon yn cyflwyno cylchdro chwarae Else a Sturrock a'r moddau ymyrryd cysylltiedig, yn ogystal ag adolygu rhywfaint o ddulliau ymyrryd cyffredin. Mae'r adran yn cloi drwy archwilio materion sy'n ymwneud â risg ac ansicrwydd mewn chwarae plant ac agweddau tuag at asesu risg, ac asesu risg-budd yn bennaf.

Mae **Cyfrol 3: Datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae** yn canolbwyntio ar elfennau ymarferol datblygu a rheoli darpariaeth gwaith chwarae o ddydd-i-ddydd. Mae'n cael ei danategu gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac mae wedi ei gynhyrchu ar gyfer y bobl hynny sydd â dealltwriaeth dda o ddamcaniaethau ac arfer chwarae a gwaith chwarae, gan ganolbwyntio llai ar gysyniadau a damcaniaethau gwaith chwarae, a mwy ar ddyletswyddau rheolaethol uwch-weithwyr chwarae.

Mae'r gyfrol hon wedi ei rhannu'n dair adran. Adran un – Cynllunio ar gyfer chwarae – sy'n edrych yn benodol ar yr agweddau allweddol i'w hystyried wrth baratoi ar gyfer prosiect gwaith chwarae.

Adran dau – Datblygu fframwaith sefydliadol – fydd yn helpu darllenwyr i ddynodi a gwerthfawrogi rôl a swyddogaeth polisïau a gweithdrefnau wrth gefnogi arfer gwaith chwarae, cyflawni ein dyletswydd gofal i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwarchod enw da'r sefydliad.

Yn olaf, mae adran tri – Gwerthuso ansawdd – yn archwilio materion sy'n ymwneud â gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth chwarae, gan edrych ar ffyrdd y gallwn barhau i adolygu a gwella ansawdd y ddarpariaeth yr ydym yn gyfrifol amdani.

Mae **Cyfrol 4: Rheoli gweithwyr chwarae a gweithio gydag oedolion eraill** wedi ei hanelu at y bobl hynny sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell dros aelodau eraill o staff yn cynnwys rheolwyr a phwyllgorau rheoli. Mae adran un – Derbyn cyfrifoldebau rheoli – yn archwilio pynciau'n cynnwys arddulliau arweinyddol, creu amgylcheddau effeithiol ar gyfer gwaith tîm, sgiliau ar gyfer rheoli newid a darparu adborth effeithlon.

Bydd adran dau – Cefnogi datblygiad proffesiynol – yn canolbwyntio ar rôl allweddol myfyrio, yn cynnwys dulliau a modelau i gefnogi a hyrwyddo arfer myfyriol. Yn ogystal, mae'r adran hon yn cwmpasu mentora, goruchwylio ac arfarnu staff.

Mae adran tri – Gweithio gydag oedolion eraill – yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gydag oedolion eraill y tu hwnt i'r tîm staff. Mae'n ystyried llu o faterion cysylltiedig o'r ffurfiol i'r llai ffurfiol, yn cynnwys gwerth creu argraff gyntaf gadarnhaol, datblygu a chynnal perthnasau'n llawn ymddiriedaeth gyda rhieni a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill.

Yn olaf, mae adran pedwar – Delio gyda gwrthdaro, beirniadaeth a chwynion – yn astudio pam y gallai gwrthdaro ddigwydd ac yn archwilio amrywiol arddulliau ar gyfer delio gyda gwrthdaro rhyngbersonol a sut y gall hunanymwybyddiaeth gefnogi cyfathrebu effeithlon.

Mae'r canllaw hwn wedi ei anelu at uwch-aelodau o staff sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb rheoli mewn prosiect gwaith chwarae. Gallai hyn gynnwys:

- Cyfleusterau penodedig fel meysydd chwarae antur neu ofal plant y tu allan i'r ysgol
- Sesiynau gwaith chwarae sy'n ailymweld â'r un lleoliadau, er enghraifft cynlluniau chwarae mewn parciau
- Prosiectau peripatetig, er enghraifft prosiectau rhodwyr chwarae neu chwarae stryd
- Prosiectau 'unnos' dros dro.

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar elfennau ymarferol datblygu a rheoli darpariaeth gwaith chwarae o ddydd-i-ddydd ac mae'n seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae'r canllaw wedi ei gynhyrchu ar gyfer y bobl hynny sydd â dealltwriaeth dda o ddamcaniaethau ac arfer chwarae a gwaith chwarae. Felly, mae'r canllaw hwn, yn canolbwyntio llai ar gysyniadau a damcaniaethau gwaith chwarae, a mwy ar ddyletswyddau rheolaethol uwch-weithwyr chwarae.

Am fwy o wybodaeth ar ddamcaniaethau ac arfer chwarae a gwaith chwarae, gweler cyfrol 1 a chyfrol 2.

Fel rhan o broses sefydlu prosiect gwaith chwarae, mae'r canllaw hwn yn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â recriwtio, dethol a sefydlu staff. Mae materion sy'n gysylltiedig gyda rheoli staff yn barhaus yn cael eu trin a'u trafod yn fanylach yng *Nghyfrol 4 – Rheoli gweithwyr chwarae a gweithio gydag oedolion eraill*.

Mae'r gyfrol hon wedi ei rhannu'n dair adran:

1. **Cynllunio ar gyfer chwarae** – pethau allweddol i'w hystyried wrth baratoi ar gyfer prosiect gwaith chwarae
2. **Datblygu fframwaith sefydliadol –** sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau yn cefnogi arfer gwaith chwarae yn ogystal â chyflawni ein dyletswydd gofal i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwarchod enw da ein sefydliad
3. **Gwerthuso ansawdd –** sy'n edrych ar ffyrdd y gallwn barhau i adolygu a gwella ansawdd y ddarpariaeth yr ydym yn gyfrifol amdani.



## Sgiliau a rhinweddau personol a phroffesiynol uwch-weithiwr chwarae

Mae gan y gweithiwr chwarae sy'n gyfrifol am reoli lleoliad chwarae o ddydd-i-ddydd nifer o wahanol deitlau – goruchwylydd gwaith chwarae, uwch-weithiwr chwarae, gweithiwr chwarae â gofal, rheolwr gwaith chwarae. Byddwn yn defnyddio'r term uwch-weithiwr chwarae i gyfeirio at y rôl hon o hyn ymlaen.

Byddwn yn defnyddio llawer o sgiliau proffesiynol a rhinweddau personol i reoli lleoliadau chwarae. Rydym yn weithwyr chwarae yn ogystal ag yn rheolwyr y lleoliad ac yn arweinydd tîm – hyd yn oed os mai dim ond dau ohonom sydd yn y tîm hwnnw. Awgryma Kilvington a Wood[1] bod uwch-weithiwr chwarae angen sgiliau yn y meysydd canlynol:

- Sicrhau mynediad i a rheoli gwybodaeth ac adnoddau – ymchwil parhaus yn defnyddio ystod o ffynonellau, y mae'r canlyniadau ar gael i'w defnyddio, yn ogystal â gwaith gweinyddol a chofnodi bob dydd
- Cyllidebu, cynllunio a goruchwylio adnoddau ariannol
- Cyfathrebu a rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol a sectorau eraill – cadw gwaith chwarae'n fyw, datblygu cysylltiadau a chadw mewn cysylltiad â sectorau eraill sy'n gweithio gyda phlant, yn ogystal â rhannu'r neges gwaith chwarae
- Cyfathrebu'n dda – defnyddio'r ystod ehangaf o dechnegau cyfathrebu i gynorthwyo dealltwriaeth
- Dirprwyo – caniatáu i weithwyr chwarae eraill gymryd cyfrifoldeb
- Datblygu'r tîm – helpu gweithwyr chwarae unigol i ddatblygu eu sgiliau unigol a'u sgiliau tîm
- Meddu ar weledigaeth – gwybod yr hyn y mae'r ddarpariaeth yn anelu amdano
- Adnabod cryfderau a gwendidau eich tîm – cydnabod aelodau'r tîm fel unigolion, y mae gan bob un ohonynt rywbeth i'w gynnig
- Gwrando – nid dim ond clywed heb wir ddeall
- Llunio penderfyniadau – a chymryd cyfrifoldeb am unrhyw benderfyniadau a wneir
- Monitro a gwerthuso – gan ddefnyddio meincnodau arfer gwaith chwarae gorau
- Goruchwylio gwaith y tîm – gwybod yr hyn sy'n cael ei wneud, pam ei fod yn cael ei wneud a phwy sy'n ei wneud
- Recriwtio, dethol a chadw staff.





Fig5. Playworkers Brain

# Cynllunio ar gyfer chwarae



Cynllunio, yn syml iawn, yw'r broses o fabwysiadu cynllun neu ffordd o weithredu i gyflawni ein nodau a'n amcanion. Mae'n galw am feddwl ymlaen, rhagweld anghenion a chamau gweithredu, a phennu blaenoriaethau. Mae cynllunio effeithlon yn dibynnu ar gael bwriad clir a syniad o'r hyn yr ydym am ei gyflawni. Wrth gynllunio, dylem wastad gofio ein bod yn cynllunio ar gyfer chwarae plant – a bod chwarae'n berchen i'r plant. Byddwn yn cynllunio i'r plant fynegi eu hymddygiad chwarae'n rhydd, ac nid i gyflawni ein hawydd personol ni am drefn ac i reoli.

Man cychwyn da ar gyfer unrhyw brosiect gwaith chwarae yw meddwl am yr hyn yr ydym yn anelu i'w wneud. Beth yw pwrpas y ddarpariaeth yr ydym yn ei datblygu? Pa ganlyniadau ydym eu heisiau? Sut allwn ni gyflawni'r canlyniadau hyn orau? A sut fyddwn ni'n gwybod os ydyn ni'n eu cyflawni?

## Gwahanol fathau o gynllunio

Mae gwahanol amgylchiadau'n galw am wahanol agweddau tuag at gynllunio a gall cynllunio ddigwydd dros wahanol gyfnodau yn dibynnu ar ei bwrpas. Isod rhestrir rhai mathau cyffredin o gynllunio allai fod o ddefnydd i uwch-weithwyr chwarae:

- Mae cynllunio tymor hir neu strategol yn ymwneud â'n gweledigaeth a'r hyn yr ydym am ei gyflawni yn y pen draw. Gallai enghreifftiau o gynllunio tymor hir gynnwys adeiladu gofod chwarae newydd, eiriolaeth a marchnata.
- Bydd cynllunio tactegol fel arfer yn digwydd dros gyfnod byr neu ganolig ac mae'n ymwneud â'r modd y caiff pethau eu gwneud a sicrhau bod nodau ein cynlluniau strategol yn cael eu cyflawni. Gallai enghreifftiau o gynllunio tactegol gynnwys cael y cynghorydd lleol i gefnogi ein hachos neu gael plant sydd wedi colli diddordeb i ailymweld â'r ddarpariaeth gwaith chwarae.
- Cynllunio wrth gefn yw dynodi a pharatoi ar gyfer yr hyn allai fynd o'i le, er enghraifft cynllunio cyfleoedd gwahanol rhag ofn y bydd y tywydd yn ddifrifol wael.
- Mae cynllunio rheolaidd yn cyfeirio at ddigwyddiadau arferol, rheolaidd fel cyfarfodydd staff, rotâu neu gasglu deunyddiau.
- Mae cynllunio bob dydd yn cynnwys paratoi adnoddau'n uniongyrchol ar gyfer chwarae.
- Mae cynllunio prosiect yn cyfeirio at brosiect penodol sydd ag amserlen benodedig, fel paratoi ar gyfer digwyddiad arbennig.

Gelwir un math o gynllunio y byddem am ei osgoi yn reoli argyfwng. Nid yw hyn yn gynllunio yn yr ystyr traddodiadol mewn gwirionedd, gan ei fod yn cynnwys delio'n barhaus â bygythiadau wedi iddynt ddigwydd. Mae'n ymateb i sefyllfaoedd yn barhaus yn hytrach na chynllunio ar eu cyfer ymlaen llaw.

### Cynllunio gyda llinellau amser

Os byddwn yn rhan o baratoi cynlluniau sy'n arbennig o gymhleth neu hirfaith, dylem ystyried defnyddio llinell amser. Mae llinell amser, yn syml, yn gynrychioliad graffig o rywbeth sy'n arddangos treigl amser. Mae'n caniatáu inni weld, ar yr olwg gyntaf, pryd y dylid cychwyn a chwblhau camau gweithredu allweddol ac os yw'n cynlluniau ar y trywydd cywir.

## Dod i adnabod y gymuned leol

Mae sicrhau y caiff pob plentyn y cyfle i gael mynediad i amgylcheddau chwarae amrywiol a chyfoethog yn rhan o'n rôl fel gweithwyr chwarae, fel y mae Egwyddor Gwaith Chwarae 5 yn nodi: 'Rôl y gweithiwr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu gofod ble y gallant chwarae'.

Er mwyn deall yr hyn y dylem ei gynnig, mae'n bwysig ystyried y gymuned leol ble mae'r plant yn byw. Gallwn wneud hyn trwy ddilyn tri thrywydd ymholi:

1. **Cyfleoedd sydd ar gael** – Mae angen inni wybod am amgylcheddau lleol y plant a'r hyn y maent yn eu cynnig o ran chwarae. Pa fath o gyfleoedd sydd ar gael a pha mor hygyrch ydyn nhw i blant? Ble mae'r plant yn cael mynd a ble dydyn nhw ddim yn cael mynd? Beth all y plant ei wneud yn y mannau y maent yn cael mynd iddynt? Ydi'r amgylchedd yn ffafrio neu'n gogwyddo tuag at fathau penodol o ymddygiad? Beth, os unrhyw beth, y mae'r plant yn colli allan arno?
2. **Diwylliant ac agweddau** – Mae angen inni wybod hefyd am ddiwylliant ac agweddau o fewn y gymuned leol. Sut mae'r gymuned yn ystyried plant a'u safle mewn cymdeithas? Faint o werth mae oedolion yn ei osod ar chwarae plant? Sut mae rhieni a gofalwyr yn teimlo am adael i'w plant fentro neu gymryd risg wrth chwarae? Ydyn nhw'n ymwybodol o'n math ni o ddarpariaeth, ei sail resymegol a sut y mae'n gweithredu? Er bod ein ffocws wastad ar y plant, ddylen ni ddim anghofio bod y rhan fwyaf o rieni'n rheoli faint o fynediad gaiff eu plant i gyfleoedd i chwarae'r tu allan i'r cartref a'n bod ni'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae (Egwyddor Gwaith Chwarae 4).
3. **Daearyddiaeth a demograffeg** – Hefyd, mae angen inni gasglu gwybodaeth am ddaearyddiaeth a demograffeg (astudio maint, trwch, a dosbarthiad poblogaeth) y gymuned leol, yn ogystal â lleoliad ysgolion a darpariaethau eraill ar gyfer plant, megis clybiau ieuenctid.

Pan fyddwn yn gwybod beth sydd ar gael i'r plant, gallwn ei asesu yn erbyn yr hyn y mae plant ei angen a'i eisiau mewn gwirionedd. Yna, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yma i hysbysu ble, pryd a sut y byddwn yn trosglwyddo ein darpariaeth er mwyn cyflawni ein nodau a'n amcanion orau. Yn ogystal, bydd ein tri thrywydd ymholi'n helpu i bennu'r hyn allai fod angen inni ei wneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob plentyn yn ein cymuned. Gallai hyn gynnwys dynodi rhwystrau anghyffredin i chwarae y mae rhai plant yn eu profi a gwneud rhagor o waith i oresgyn y rhain, er enghraifft eiriolaeth neu farchnata wedi ei dargedu.

### Archwiliadau cymunedol lleol gyda'r plant

Yn syml, mae archwiliad yn system wirio neu'n werthusiad. Mae'n fodd o ddysgu beth sydd gennym, beth sydd ddim gennym, a'r hyn ddylai fod gennym. Gall archwiliad ymwneud â niferoedd, yn ogystal ag ansawdd.

Bydd plentyn sy'n chwarae'n dehongli gofod yn reddfol a gwneud newidiadau iddo, neu'n syml iawn yn symud ymlaen gan nad yw'r gofod yn cynnig, neu ei fod wedi gorffen cynnig, yr hyn y maent ei angen neu ei eisiau. I weithwyr chwarae sy'n gyfrifol am archwilio cymuned leol, y ffynhonnell wybodaeth fwyaf dibynadwy fydd y plant. Fodd bynnag, pan fyddwn yn archwilio, bydd angen inni gofio mai ein hagenda ni yw hon ac nid un y plant. Bydd angen inni gofio i beidio â tharfu ar eu hamser i chwarae, ond os yw'r plant i deimlo bod y ddarpariaeth chwarae'n berchen iddyn nhw, bydd eu cyfranogaeth o fudd wrth gefnogi ymdeimlad o berchenogaeth. Mae nifer o ffyrdd y gall plant hysbysu archwiliad o'u hamgylchedd lleol a hynny heb inni roi unrhyw bwysau arnyn nhw, a gyda dim ond ychydig o arweiniad.

Gall edrych ar fapiau gyda'r plant fod yn ffordd dda o ddadansoddi daearyddiaeth ardal a dechrau deall sut y mae'r plant yn chwarae ynddi. Mae'n hanfodol na fyddwn yn rhannu gwybodaeth werthfawr am fannau cyfrinachol plant gydag oedolion eraill allai, efallai, atal y plant rhag chwarae yn y mannau hynny, oni bai bod perygl taer a difrifol.

Mae dulliau eraill y gellir eu defnyddio gyda'r plant yn cynnwys:

- Tynnu lluniau ar bapur o'r hyn y maent yn hoffi ei wneud
- Cyfweld plant eraill am eu diddordebau
- Cynhyrchu a chwblhau holiaduron gyda'u cyfoedion
- Tynnu ffotograffau o fannau y mae'r plant yn eu gwerthfawrogi ar gyfer chwarae.


Bydd mynd allan i'r gymuned ac arsylwi plant yn chwarae mewn modd sensitif, yn ogystal â sgwrsio â nhw, yn ein helpu i gasglu gwybodaeth. Os byddwn yn gwneud hyn, dylem sicrhau nad ydym yn edrych yn rhy 'swyddogol' gan fod y plant yn debygol o sgrialu a diflannu!

Mae'n bwysig cofio yn unrhyw elfen o'n gwaith gyda'r plant i beidio addo pethau na allwn eu cyflawni. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yw mapio a dehongli'r gofod a'r hyn sy'n digwydd ynddo er mwyn cefnogi prosesau llunio penderfyniadau. Os byddwn, ar unrhyw adeg yn ystod y broses, yn cyfleu negeseuon cymysglyd ynghylch datblygiad y lleoliad i'r dyfodol neu am adnoddau, bydd y plant yn ymddieithrio a chaiff eu hymdeimlad o berchenogaeth ei niweidio.

## Lleoliad, lleoliad, lleoliad

Bydd llwyddiant ein prosiect gwaith chwarae'n dibynnu ar ble y mae'n digwydd. 'Does dim pwrpas cynnal darpariaeth mewn lleoliad anghysbell ble na fydd y plant yn gallu cael mynediad iddo. Mae angen i'r ddarpariaeth fod yn hygyrch i gymaint o wahanol blant ag sy'n rhesymol ymarferol ac mae hyn yn debyg o olygu bod yn agos at ble y maen nhw'n byw. Fodd bynnag, mae ble y byddwn yn rhedeg darpariaeth yn debygol hefyd o ddylanwadu ar y cyfleoedd y byddwn yn eu cynnig. Wrth ddewis lleoliad ar gyfer ein darpariaeth dylem ystyried y canlynol:

- **Ble mae plant eisiau chwarae** – Efallai y bydd y plant eisiau i'r prosiect gael ei gynnal mewn man ble y maent yn chwarae eisoes, neu efallai y byddant am inni eu cefnogi i gael mynediad i ofod newydd. Waeth hynny, y ffordd orau o ddysgu am hyn yw trwy holi'r plant yr ydym am iddynt fynychu.
- **Ble mae plant yn cael chwarae** – Siaradwch gyda rhieni a gofalwyr ynghylch ble y maent yn fodlon caniatáu i'w plant chwarae a pha mor bell y caiff eu plant gerdded neu seiclo / sgwtio hebddyn nhw. Mae'n bosibl yn ystod y dyddiau cyntaf y bydd rhaid inni gynnal y prosiect yn agos iawn at gartrefi pobl ond, dros amser, wrth i ymddiriedaeth a hyder yn y ddarpariaeth gynyddu, mae'n bosibl y gallwn symud ymhellach i ffwrdd i ddefnyddio gofodau mwy diddorol.



- **Ble y cawn ganiatâd i gynnal y ddarpariaeth** – Hyd yn oed pan fyddwn yn cynnal darpariaeth mewn mannau cyhoeddus, mae'n bwysig gwirio bod gennym ganiatâd i wneud hynny. Gallai hyn gynnwys cysylltu gyda'r tirfeddiannwr a / neu'r awdurdod lleol.
- **Ble y gallwn gael ein gweld** – Os yn bosibl, dylai'r ddarpariaeth fod yng ngolwg trigolion lleol er mwyn i bobl sy'n pasio heibio weld beth sy'n digwydd, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o ddod i gymryd golwg agosach a, gobeithio, gwneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus gydag ymddygiad chwareus plant.
- **Ble gallwn fod yn hygyrch** – Mae angen i'r plant allu cael mynediad i'r safle ar droed ac maent yn annhebyg i gerdded ymhell o adref. Gall lleoliad canolog yn y gymuned fod yn ddelfrydol. Ar y llaw arall, efallai y bydd y prosiect yn symud rhwng nifer o wahanol safleoedd, fydd yn annog plant o wahanol ardaloedd o'r gymuned i fynychu. Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, dylid cymryd mesurau hefyd i sicrhau bod y safle yn hygyrch i bob plentyn. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i fynediad ar gyfer plant anabl, yn cynnwys rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.
- **Ble gallwn gynnig tirwedd amrywiol a diddorol** – Yn ddelfrydol, byddai hwn yn amgylchedd naturiol gyda glaswellt, coed, llwyni, llethrau, pridd a dŵr. Bydd elfennau o'r fath yn annog ystod eang o ymddygiadau chwarae hyd yn oed cyn i'r amgylchedd gael ei gyfoethogi gan weithwyr chwarae yn darparu adnoddau ychwanegol. Ble nad yw hyn yn bosibl, mae'r cyfrifoldeb arnom ni fel gweithwyr chwarae i ganfod ffyrdd eraill i ddarparu'r mathau hyn o gyfleoedd.

*(Addaswyd yr adran uchod o becyn gwaith chwarae cymunedol Wrecsam)*

Os byddwn yn datblygu safle penodedig ar gyfer chwarae, er enghraifft maes chwarae antur, mae'n bosibl y bydd llawer mwy o waith ynghlwm â sicrhau ac adeiladu'r man chwarae. Mae hyn yn debyg o gynnwys gweithio gyda syrfëwyr, cynllunwyr ac adeiladwyr yn ogystal â cheisio cyngor arbenigol i oresgyn heriau.

Os byddwn yn gweithredu mewn gofod a rennir gydag eraill, bydd angen inni'n aml eiriol dros chwarae plant gyda defnyddwyr eraill y gofod a gyda llywodraethwyr y safle / adeilad. Er enghraifft, mae gan neuadd bentref gyffredin lu o ddefnyddiau a gofynion. Mae'n hanfodol inni hysbysu defnyddwyr eraill am yr amserau y byddwn yn defnyddio'r adeilad a'r gofod awyr agored. Mae'n ddefnyddiol hefyd rhoi gwybod i gymdogion cyfagos pryd y bydd y plant yn chwarae, ac yn swnllyd o bosibl. Rydym angen cyfeillion yn hytrach na chael ein hystyried fel 'y criw swnllyd yna gyda'r holl blant yn chwarae gwirion'.

## Cael yr elfennau sylfaenol yn iawn

Bydd plant yn ei chael yn anodd chwarae os nad yw eu hawliau goroesi sylfaenol yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cael eu hamddiffyn rhag trais, ecsploetiaeth, camdriniaeth ac esgeulustod, yn ogystal â mynediad i fwyd a dŵr, lloches a chynhesrwydd, toiledau a hylendid, a thriniaeth feddygol. Mae hyn yn codi dau fater pwysig.

Yn gyntaf, gall rhan o rôl gweithiwr chwarae gynnwys helpu i ddelio gyda thresbasau ar hawliau eraill i alluogi plant i chwarae. Gallai hyn gynnwys gweithio gydag asiantaethau eraill, cyfranogi mewn materion amddiffyn plant neu fwydo plant llwglyd. Mae hyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cael polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol yn eu lle cyn inni drosglwyddo'r ddarpariaeth (gweler adran 2 – Datblygu fframwaith sefydliadol).

Yn ail, wrth ddarparu ar gyfer chwarae bydd angen inni ystyried i ba raddau y dylem ddarparu ar gyfer hawliau eraill ac mae hyn yn debyg o ddibynnu ar y math o ddarpariaeth yr ydym yn ei hwyluso. Er enghraifft, mewn lleoliad penodedig mae'n debyg y bydd gennym fynediad i doiledau, basnau ymolchi a chegin hyd yn oed, ond os ydym yn rhedeg cynllun chwarae symudol yng nghanol ystâd o dai bydd yn hawdd iawn i'r plant fynd adref i gael bwyd, os yw ar gael neu i ddefnyddio'r toiled. Dylem hefyd ystyried i ba raddau y bydd angen cysgod rhag y tywydd ac, ar gyfer pob math o ddarpariaeth, bydd angen inni allu darparu cymorth cyntaf os digwydd damwain a bod â gweithdrefn yn ei lle os bydd angen galw'r gwasanaethau brys.



## Meddwl am amrywiaeth a chynhwysiant

'Mae'r cysyniad o amrywiaeth yn cwmpasu cydnabyddiaeth a pharch. Mae'n golygu deall bod pob unigolyn yn unigryw, ac adnabod ein gwahaniaethau unigol. Gall y rhain fod o ran meysydd megis hil, ethnigrwydd, rhyw, tueddiad rhywiol, statws economaidd-gymdeithasol, oed, doniau corfforol, credau crefyddol, credau gwleidyddol, neu ideolegau eraill. Mae'n golygu archwilio'r gwahaniaethau hyn mewn amgylchedd diogel, cadarnhaol a chefnogol. Mae'n ymwneud â deall ein gilydd a symud y tu hwnt i oddefgarwch syml ac at groesawu a dathlu dimensiynau cyfoethog amrywiaeth a geir ym mhob unigolyn.'[2]

Mae darpariaeth chwarae cynhwysol yn un sy'n cynnal hawl pob plentyn i chwarae, waeth beth yw amrywiaeth eu profiadau bywyd. Fel gweithwyr chwarae mae rhaid inni fod yn rhagweithiol (*proactive*) wrth herio gwahaniaethu, rhagfarn ac anghydraddoldeb trwy alluogi plant i gael mynediad i'n darpariaeth. Wrth gynllunio ein prosiect gwaith chwarae, mae'n hanfodol inni feddwl sut y byddwn yn darparu ar gyfer ystod amrywiol o blant, gan gydnabod y bydd rhai angen mwy o gymorth na'i gilydd i gael mynediad i'w hawl i chwarae. Tra bo llawer mwy i arfer gwaith chwarae cynhwysol na'r hyn a eglurwyd yma, mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn bennaf â'r hyn sydd ei angen yn ei le i wneud ein darpariaeth yn hygyrch i gymaint o wahanol blant â phosibl. Mae hyn yn cynnwys datblygu amgylcheddau ffisegol, strwythurau staffio, polisïau a gweithdrefnau sy'n briodol ar gyfer y gwaith.

### Model Cymdeithasol Anabledd

Mae nifer o ffyrdd y gall plant gael eu hanablu rhag cael mynediad i'n darpariaeth chwarae ac mae llawer i'w ddysgu oddi wrth y mudiad hawliau anabledd, sy'n dynodi modelau defnyddiol ar gyfer deall yr heriau a hysbysu newidiadau. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cydnabod bod pobl sydd â namau'n cael eu hanablu gan gymdeithas ble nad oes ganddynt fynediad i'r un hawliau a phobl eraill. Mae'r model hwn yn dadlau bod cymdeithas angen gwneud newidiadau er mwyn cynnwys pobl â namau. Gallai buddsoddi mewn trafnidiaeth hygyrch, er enghraifft, alluogi person â phroblemau symudedd i gyrraedd at ble maent am chwarae. Mae'r agwedd hon yn wahanol i'r model meddygol o anabledd ble mae pobl yn dueddol o gael eu hadnabod yn ôl enw eu nam ac mae'r label hwn yn arwain at lunio tybiaethau am sut un yw'r person, a'r hyn y mae'n gallu neu ddim yn gallu ei wneud.

Fel uwch-weithwyr chwarae, rydym yn gyfrifol am reoli'r amgylchedd er mwyn ymateb i a darparu ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn, yn ddelfrydol heb iddynt fod yn ymwybodol o'n gwaith. Mae hyn yn adlewyrchu'r disgwyliad bod rhaid i gymdeithas gyfaddasu i gyflawni hawliau pobl sydd â namau.

### Dyluniad cyffredinol

Canlyniad ymarferol arall a gododd o'r mudiad hawliau anabledd fu twf dyluniad cyffredinol. Yr athroniaeth oedd y gallai cymdeithas, trwy gamau dylunio syml iawn, dyfu'n llawer mwy hygyrch i lawer mwy o bobl. Enghraifft glasurol yw'r 'cwrb isel' sydd bellach mor gyffredin fel nad ydym yn edrych arno ddwywaith.

Mae rhiant â bygi, person sy'n defnyddio cadair olwyn neu sydd â phroblemau golwg neu symudedd, neu berson mewn oed, yn ei chael yn haws i gerdded ar hyd balmentydd a chroesi ffyrdd oherwydd hyn.

Wrth ddewis lleoliad neu ddylunio gofod ar gyfer ein darpariaeth gwaith chwarae bydd angen inni feddwl sut y gellid ei wneud yn hygyrch i amrywiaeth eang o wahanol blant tra ar yr un pryd gynnig man amrywiol, hyblyg a chyffrous i chwarae. Mae rhaid i'r lleoliad chwarae fod â chynnig chwarae o ansawdd ar gyfer pob plentyn. 'Does dim angen i bob plentyn allu chwarae gyda neu ar bob peth, ond maent i gyd angen yr ystod ehangaf posibl o opsiynau chwarae. Gall lleoliad chwarae gyda chyflenwad da o rannau rhydd (gweler yr eglurhad yn yr adran ar Sicrhau adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth) alluogi pob plentyn i greu beth bynnag y mynnant drostynt eu hunain.

### Offer arbenigol


Efallai y bydd rhai plant sydd â namau difrifol a chymhleth angen mynediad i offer arbenigol i'w galluogi i gael mynediad i'n darpariaeth. Fodd bynnag, bydd y graddau y mae hyn yn bosibl yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael, y math o ddarpariaeth yr ydym yn ei hwyluso a'i leoliad. Dylai cyfleuster penodedig, fel maes chwarae antur, fod â mynedfeydd a drysau hygyrch a thoiledau sy'n ddigon mawr ar gyfer dau weithiwr chwarae. Gallai hefyd fod â chadair olwyn, peiriant codi a bwrdd newid. Gallai hyd yn oed fod ag ystafell gawod ag ystafell golchi dillad ynghyd â pheiriant sychu a chwpwrdd i gadw dillad sbâr.

Fodd bynnag, tra gallai hyn i gyd fod yn ddymunol fydd o ddim yn ymarferol bosibl bob tro. Mae'n hyfryd cael ystafell chwarae meddal ar gyfer chwarae gwyllt, ond bydd matres, sachau ffa anferth neu fatiau gymnasteg yn gweithio cystal. Gallwn benderfynu i fuddsoddi miloedd o bunnoedd ar byllau peli ac ystafelloedd synhwyraidd ond gall mannau awyr agored ddarparu cystal ar gyfer profiadau tebyg – mannau ble y gall y plant orwedd ar y glaswellt, sblasio dŵr, tyllu yn y tywod, dychryn pobl gyda mwd, a bod yn dawel neu'n swnllyd. Unwaith eto, bydd cyflenwad da o rannau rhydd (gweler yr adran ar Sicrhau adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth) yn hanfodol.

## Sicrhau lefelau staffio digonol

Gellid dadlau mai'r elfen bwysicaf yn unrhyw ddarpariaeth wedi ei staffio (ar wahân i'r plant) yw ein cydweithwyr gwaith chwarae. Bydd sut y byddwn yn ymateb ac ymddwyn a'r agweddau y byddwn yn eu cyfleu yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr awyrgylch y byddwn yn ei greu ar gyfer chwarae ac, o ganlyniad, yn dylanwadu'n sylweddol ar lwyddiant neu fethiant ein darpariaeth.

Os oes gennym gyfrifoldeb am staffio, mae angen inni sicrhau bod gennym nifer digonol o staff ar gael a bod gan y staff hynny'r personoliaethau, yr ysgogiad, y wybodaeth a'r profiad i gefnogi plant yn chwarae. Mae hyn yn cynnwys cael capasiti digonol a'r sgiliau angenrheidiol yn ein tîm o staff i ddarparu lefelau mwy sylweddol o gefnogaeth i blant unigol ble fo angen.



Tra dylai'r tîm cyfan allu gweithio gyda phob plentyn, efallai y bydd rhai plant angen cymorth sydd bron yn barhaus, fydd yn galw ar weithiwr chwarae i ganolbwyntio eu sylw arnynt. Efallai y bydd angen hefyd i'r tîm reoli tasgau gofal personol, gan roi cymorth i blant gyda mynd i'r toiled neu eu newid, os bydd angen. Bydd rhaid rhoi ystyriaeth i sut a ble y bydd hyn yn digwydd a hyder y staff i gyflawni'r tasgau hyn.

Mae'n bosibl hefyd y bydd nifer y staff sydd ei angen yn amrywio trwy gydol y flwyddyn a bydd rhaid inni ddarogan y galw, er enghraifft, trwy sicrhau bod gweithwyr chwarae ychwanegol ar gael yn ystod y gwyliau neu pan fo'r oriau agor yn hirach. Gallai ein gwaith cynllunio gynnwys sicrhau bod gennym y cyfuniad cywir o wybodaeth a sgiliau yn ein tîm neu wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y defnydd gorau o weithwyr chwarae gyda sgiliau arbenigol.

Mae angen i'n prosiect fod â digon o staff i sicrhau bod y sesiynau'n cael eu goruchwylio'n ddigonol ac, o ganlyniad, bydd nifer y staff sydd ei angen yn dibynnu ar y nifer o blant y disgwylir iddynt fynychu. Efallai y bydd angen inni hefyd gydymffurfio gyda chymarebau staffio a osodir gan yr arolygiaethau perthnasol yn ein gwlad.

## Recriwtio a dethol staff

Mae ansawdd darpariaeth chwarae'n ddibynnol ar recriwtio, dethol a chadw staff priodol sy'n meddu ar wybodaeth ac agweddau priodol ar gyfer y swydd. Bydd rhaid cynllunio dethol a recriwtio effeithlon yn ofalus bob amser er mwyn sicrhau bod y plant yn cael gweithiwr chwarae cymwys ac effeithlon sy'n gallu ateb eu hanghenion, a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag arfer gwael, amhriodol. Yn ogystal, bydd cynllunio gofalus yn helpu i sicrhau fod y sefydliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithlon o ran tegwch a chydraddoldeb ac yn helpu i baru'r ymgeiswyr cywir â'r swyddi cywir. Wrth greu swyddi staff a recriwtio staff, bydd angen inni ystyried:

- **Oriau staff –** Yn ogystal â'r amser y bydd staff yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant, bydd angen rhoi oriau ychwanegol iddynt ar gyfer dyletswyddau eraill. Gallai'r rhain gynnwys gwirio'r safle, casglu a pharatoi adnoddau, pacio a chadw, cynhyrchu monitro, rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddarpariaeth a dilyn i fyny ar bryderon ynghylch plant unigol. Dylid rhoi amser hefyd i'r staff fyfyrio ar eu harfer fel elfen hanfodol o wella ansawdd y ddarpariaeth.
- **Cymwysterau** – Pa gymwysterau gwaith chwarae fydd angen i staff feddu arnynt cyn cael eu cyflogi? Yng Nghymru, er mwyn cyflawni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS), bydd rhaid i o leiaf un aelod o staff feddu ar gymhwyster lefel 3 mewn gwaith chwarae. Bydd angen i rai aelodau o staff feddu hefyd ar gymhwyster cymorth cyntaf.
- **Swydd-ddisgrifiadau** – Mae'n bwysig bod gan bob aelod o staff swydd-ddisgrifiad sy'n amlinellu eu rôl a'u cyfrifoldebau cyffredinol. Gallai hwn gynnwys i bwy y mae'r swydd yn atebol, manylebau fel y cymwysterau neu'r sgiliau sydd eu hangen ar y person yn y swydd ar raddfa gyflog.
- **Graddfeydd cyflog** – Mae rhaid i raddfeydd cyflog staff adlewyrchu'r cyfrifoldeb a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl sydd, ar gyfer gweithwyr chwarae, yn cynnwys goruchwylio a gofalu am blant. Dylai'r raddfa gyflog hefyd gyfateb â chyflogau staff mewn rolau tebyg ar draws yr ardal leol.
- **Cytundebau** – Dylai pob aelod o staff sydd wedi ei gyflogi ar y prosiect gwaith chwarae dderbyn cytundeb ysgrifenedig. Dylai hwn gynnwys oriau contract a graddfa gyflog y person.

Bydd angen i unrhyw un sydd eisiau gweithio â phlant gwblhau gwiriadau i farnu os ydynt yn 'addas' i wneud hynny, neu beidio, ac mae hyn yn cynnwys gwiriad ar unrhyw gofnod troseddol o'r gorffennol.



Yng Nghymru a Lloegr bydd rhaid derbyn gwiriad DBS gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond rhan o'r darlun yw gwiriadau cofnodion troseddol. Dylai recriwtio diogel fod yn broses gadarn a holistig, ble y bydd y cyflogwr yn ogystal â'r cyflogai'n cymryd cyfrifoldeb. Mae hyn yn golygu y dylai person sy'n ymgeisio am swydd fod yn onest ac agored ac y dylai'r sefydliad sy'n cyflogi fod â gweithdrefnau recriwtio a dethol eglur sy'n cydnabod pwysigrwydd sgyrsiau'n ystod y cyfweliad am eu gwaith blaenorol a'u profiadau bywyd hefyd, a'r angen i holi am eirda digonol a dilyn y rhain i fyny.

Dylai cyflogwyr wastad:

- Ofyn am ddogfen â llun arni i gadarnhau pwy yw'r unigolyn
- Gwirio dogfennau cymwysterau
- Cael o leiaf ddau berson ar banel cyfweld a defnyddio'r cyfweliad i archwilio dealltwriaeth yr ymgeiswyr am eu cyfrifoldebau wrth weithio gyda phlant
- Gofyn am, a chasglu, geirdaon ysgrifenedig gan o leiaf ddau berson sydd ddim yn aelodau o'r teulu
- Gwirio pob geirda a'u cofnodi'n gywir mewn ffeiliau staff.

Yn ogystal, dylai cyflogwyr feddu ar:

- Gôd ymarfer sy'n egluro'r hyn a ddisgwylir o bob aelod o staff a gwirfoddolwyr.
- Gweithdrefn chwythu'r chwiban rhag ofn y bydd ymddygiad neu arfer unrhyw ymgeisydd llwyddiannus yn peri pryder yn hwyrach, bod proses glir ar gyfer codi a delio â hyn.
- Prosesau hyfforddi ac ymsefydlu cadarn i groesawu cyflogai newydd i'r prosiect, egluro rolau a chyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gymwys i gyflawni eu gwaith. Bydd angen i gyfnodau sefydlu gael eu cynllunio'n gywir a'u trosglwyddo'n gyson er mwyn sicrhau ein bod yn trin cyflogai newydd i gyd yn deg a'u bod yn derbyn yr un wybodaeth.
- Goruchwylio ac arfarnu'r cyflogai i gyd yn rheolaidd.

## Sicrhau ariannu digonol

Yn y pen draw, mae llwyddiant a chynaliadwyedd ein prosiect gwaith chwarae'n debyg o ddod i lawr i arian a bydd faint y byddwn ei angen yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth yr ydym yn ei datblygu. Er enghraifft, efallai y bydd llawer mwy o gostau sefydlu a rhedeg ynghlwm â sefydlu safle penodedig, fel maes chwarae antur, o'i gymharu â phrosiect 'unnos' dros dro mewn parc.

Mae'n bosibl y bydd angen i sefydliadau ymgeisio am nifer o wahanol ffrydiau ariannu i dderbyn yr holl arian y byddant ei angen. Er enghraifft, efallai y daw'r cyllid i dalu am staffio ac yswiriant oddi wrth un ariannwr tra daw arian ychwanegol ar gyfer offer a gwisgoedd staff o ffynhonnell arall.

Mae'n bwysig hefyd dynodi pa gostau sy'n hanfodol ar gyfer rhedeg y prosiect (er enghraifft cyflogau staff), a pha rai fyddai'n fuddiol ond ddim yn hanfodol (er enghraifft arian ar gyfer fan i gludo adnoddau). Mae'r mwyafrif o brosiectau'n cymryd nifer o flynyddoedd i ymsefydlu'n iawn ac felly efallai y byddai'n ddefnyddiol creu cynllun gweithredu tymor hir yn hytrach na disgwyl i gael popeth ar unwaith.

Yn aml, mudiadau sydd â statws elusennol sydd yn y sefyllfa orau i gael mynediad i'r ystod ehangaf o ffrydiau ariannu ac felly maent yn fwy tebygol o allu dod o hyd i ddigon o adnoddau i gefnogi eu gwaith i'r dyfodol.

Wrth gyfrifo faint o gyllid sydd ei angen, mae'n bwysig meddwl am yr holl gostau posibl allai godi. Mae hyn yn cynnwys:

- **Costau rheoli** – A fydd rhywun yn cael ei gyflogi i ddarparu rheolaeth llinell a goruchwyliaeth o staff sy'n gweithio ar y prosiect gwaith chwarae? Os felly, faint o'u hamser fydd hyn yn gymryd a beth yw oblygiadau ariannol posibl hyn?
- **Cyflogau'r staff** – Sawl aelod o staff, faint fyddan nhw'n cael ei dalu a sawl awr fyddan nhw'n cael ei thalu amdani? Bydd angen inni hefyd ystyried tâl gwyliau a thâl salwch ac unrhyw fuddiannau cyflogaeth eraill y gallai ein mudiad ei gynnig.
- **Costau ychwanegol** – Wrth gyfrifo costau staff, mae'n bwysig cynnwys y 'costau ychwanegol' ar gyfer pob swydd. Dyma'r canran a ychwanegir

at raddfa gyflog person i dalu am bethau fel treth a chyfraniadau pensiwn.

- **Cyflogres** – Pwy fydd yn darparu'r gyflogres ar gyfer y sefydliad, yn cynnwys cyfrifo cyfraniadau treth y staff?
- **Yswiriant** – Mae rhaid i bob sefydliad sy'n gyfrifol am drosglwyddo sesiynau chwarae wedi eu staffio feddu ar yswiriant cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus priodol.
- **Cyfleustodau** – A fydd gan ein mudiad filiau i'w talu am yr ynni a'r dŵr a ddefnyddir wrth redeg y ddarpariaeth ac os felly, beth yw'r gost flynyddol debygol?
- **Adnoddau** – Bydd prosiect gwaith chwarae prysur yn mynd trwy adnoddau yn weddol gyflym. Felly, mae'n bwysig bod cyllideb ar gael ar gyfer prynu adnoddau ar ddechrau'r prosiect a rhywfaint o arian ychwanegol i ailgyflenwi stoc yn rheolaidd.
- **Cyhoeddusrwydd** – Beth yw'r cynlluniau ar gyfer hyrwyddo'r cynllun chwarae yn y gymuned leol a faint mae hyn yn debygol o gostio? Gellir cynhyrchu posteri a thaflenni'n gymharol rad ond efallai y byddant yn llai effeithiol na baneri mawr, fflagiau lliwgar neu wisgoedd i'r staff.
- **Cludiant** – A fydd disgwyl i staff gludo adnoddau yn eu ceir personol neu a ddarperir fan neu gerbyd pwrpasol arall? Os darperir cerbyd, a fydd hwn wedi ei rentu ar brydles neu ei brynu a sut fyddwn ni'n talu am y costau rhedeg, yn cynnwys treth, yswiriant a thanwydd?

*(Addaswyd yr adran uchod o becyn gwaith chwarae cymunedol Wrecsam)*

## Sicrhau adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth

Wrth ddatblygu prosiect gwaith chwarae, mae'n bwysig meddwl am yr ystod a'r mathau o gyfleoedd yr ydym yn bwriadu eu darparu ar gyfer y plant ac o ganlyniad y mathau o adnoddau neu 'brops' yr ydym am iddynt gael mynediad iddynt. Mae ein rôl fel uwch-weithiwr chwarae'n cynnwys goruchwylio casglu, archwilio, paratoi, cynnal a chadw a storio digon o adnoddau addas ar gyfer chwarae. Mae'n debyg y bydd offer y bydd rhaid inni wario arian arno, er enghraifft nwyddau ar gyfer blychau cymorth cyntaf neu offer adeiladu. Fodd bynnag, gallwn hefyd gael gafael ar lawer o'r hyn y byddwn ei angen yn rhad ac am ddim.



## Rhannau rhydd

Mae 'damcaniaeth rhannau rhydd' Simon Nicholson yn seiliedig ar ei haeriad 'mewn unrhyw amgylchedd mae'r lefel o ddyfeisgarwch a chreadigedd, a'r posibilrwydd o ddarganfod rhywbeth, yn cyfateb yn uniongyrchol i'r nifer a'r math o newidion sydd ynddo'[3]. Mae rhannau rhydd yn cyfeirio at 'unrhyw beth y gellir ei symud o un lle i'r llall, ei gario, rholio, codi, pentyrru ar ben ei gilydd neu eu cyfuno i greu profiadau a strwythurau newydd a diddorol'[4].


Gall rhannau rhydd fod yn naturiol neu'n synthetig ac mae iddynt werth chwarae uchel oherwydd, yn wahanol i degan neu gêm a brynir mewn siop, dydyn nhw ddim yn pennu sut y dylid chwarae gyda nhw. Mae hyn yn golygu bod pob posibilrwydd yn agored ac yn ysgogi defnydd mwyfwy dychmygus. Pan fyddwn yn cynnal archwiliad o'n gofod chwarae dylem weld llawer mwy o rannau rhydd nag adnoddau llai hyblyg, mwy costus sydd â dim ond un defnydd neu bwrpas. Os mai bach yw gwerth ariannol yr adnoddau a ddarperir ar gyfer chwarae fydd dim cymaint o ots os bydd y plant yn eu difrodi neu'n defnyddio gormodedd ohonynt, sy'n golygu na fydd raid inni ymyrryd mor aml. Mae'n hawdd iawn darparu rhannau rhydd a gellir cael hyd i lawer yn rhad ac am ddim, neu am gost fechan iawn, os ydych yn gwybod sut a ble i chwilio.

## Crefft lloffa

Mae lloffa yn fath o gasglu neu chwilota mewn ymgais i gael rhywbeth am ddim (neu'n rhad iawn efallai). Gallwn loffa bron a bod unrhyw fath o 'sdwff' – deunyddiau gwastraff neu ddeunydd sydd dros ben, bocsys a phaledi, paent, neu ddodrefn ac offer. Gallwn hefyd gyd-drafod i gael defnyddio adeilad neu dir am ddim a pherswadio eraill i gyfrannu eu hamser neu eu gwasanaeth. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Nid yw lloffa'n golygu dwyn, a dylem wastad dderbyn caniatâd gan berchennog unrhyw offer y byddwn yn ei gymryd. Yn benodol, byddwn yn gofyn am ganiatâd cyn cymryd rhywbeth o sgip. Bydd y mwyafrif o bobl yn hapus i gyfrannu pethau nad ydynt eu heisiau, yn enwedig os byddwn yn egluro iddynt ei fod er budd plant.

Er mwyn bod yn lloffwr effeithlon, bydd angen inni fod yn ddyfeisgar a defnyddio ein dychymyg. Rydym angen menter, creadigedd, cyfrwystra (neu glyfrwch), gwybodaeth leol a gwybodaeth ynghylch yr hyn allai fod yn berygl i iechyd neu ddiogelwch.



Cynghorion defnyddiol er mwyn bod yn lloffwr effeithlon:

- Peidiwch â bod yn swil – mae lloffa yn un o sgiliau pwysig gwaith chwarae ac yn aml byddwn yn gwneud ffafr gyda'r ffynhonnell neu'n gwneud iddyn nhw deimlo'n dda trwy ein helpu.
- Dysgu ble y gallwn ddod o hyd i 'sdwff' – pa bobl, sefydliadau, busnesau, cartrefi, neu siopau (ffynonellau) sydd â'r 'sdwff' y gallen ni fod ei eisiau neu sy'n werth ei gael.
- Gweithio allan y modd gorau o fynd at y ffynhonnell er mwyn lloffa'n effeithlon – er enghraifft, pa rai y gallwn sgwrsio gyda nhw yn bersonol, neu bwy y dylem ysgrifennu atynt yn ffurfiol? Efallai y byddai'n syniad cadw cofnod o ba ddull weithiodd gyda pha ffynhonnell, ac enwau a diddordebau pobl fu o gymorth, fel y gallwn fynd atynt eto a gwneud iddynt deimlo eu bod yn bwysig i ni.
- Os y byddwn yn ymweld â'r ffynhonnell, byddwn yn meddwl am ein arddull cyfathrebu a sut y byddwn yn cyflwyno ein hunain. Rydym am i'r bobl hyn wneud ffafr â ni, felly bydd angen inni wneud argraff gadarnhaol.
- Os byddwn yn ysgrifennu llythyr neu e-bost, byddwn yn ei gadw'n fyr, yn gwrtais ac yn bwrpasol. Byddwn yn egluro'n gwbl groyw pam ein bod eisiau'r deunyddiau. Byddwn yn egluro sut y bydd cyfraniad o fudd i'r plant, mewn ffyrdd fydd o bwys i'n ffynhonnell.
- Byddwn yn cadw'n ffynonellau'n hapus. Byddwn yn dangos ein gwerthfawrogiad ac yn cadw ein mudiad ni yn eu meddyliau. Byddwn yn anfon llythyrau diolch, ac yn eu cynnwys yn ein cylchlythyrau a sicrhau eu bod yn gwybod sut yr ydym yn gyrru ymlaen trwy eu cynnwys ar ein rhestrau postio gwybodaeth.
- Fyddwn ni fyth yn gadael ein ffynonellau i lawr trwy beidio â throi i fyny i gasglu sdwff. Byddwn yn cofio enw'r person yr ydym wedi siarad â nhw ac yn ei ddefnyddio. Os byddwn yn benthyca 'sdwff' byddwn yn gwneud yn siŵr y caiff ei ddychwelyd mewn cyflwr da ac ar amser.
- Byddwn yn cadw cofnodion cyflawn o ffynonellau a ddefnyddiwyd a chysylltiadau a grëwyd er mwyn inni allu eu defnyddio eto, ac er mwyn inni beidio â dychwelyd at ffynhonnell yn rhy fuan neu ymddangos fel ein bod yn eu plagio. Mae'n werth cadw cofnod o ffynonellau posibl i'w defnyddio yn y dyfodol.
- Byddwn yn ennill rhai ac yn colli rhai – mae'n bwysig na fyddwn yn 'digalonni' os cawn ymateb negyddol neu ein hanwybyddu weithiau.

Er mwyn penderfynu os yw'r 'sdwff' y byddwn yn ei gasglu'n ddigon diogel i blant chwarae â nhw, byddwn yn asesu risg-budd pob deunydd sydd wedi ei loffa ac os oes unrhyw amheuon, fyddwn ni ddim yn ei ddefnyddio. Byddwn, yn benodol, yn osgoi deunyddiau gwenwynig neu ffrwydrol, arwynebau sydd wedi llwydo, ymylon miniog, gwrthrychau sydd wedi eu difrodi a nwyddau trydanol (oni bai bod person cymwys wedi ardystio eu bod yn ddiogel).

### Cynllunio ar gyfer adnoddau penodol

Mae gwahaniaeth mawr rhwng gwneud yn siŵr bod cyfleoedd newydd ar gael a gorfodi rhaglen o weithgarwch wedi ei chynllunio. Dylai ein hymyriadau alluogi plant i ymestyn eu chwarae ond heb gymryd trosodd yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd y plant yn penderfynu eu bod am wneud rhywbeth arbennig allai alw am gynllunio ychwanegol. Er enghraifft, benthyca pabell y sgowtiaid lleol i gysgu allan dros nos, benthyca matiau mawr i chwarae reslo 'WWF', neu weithio allan sut y gallwch adeiladu roced o baledi pren. Bydd hyn yn golygu rhoi trefniadau yn eu lle, efallai gydag amser i drefnu ymlaen llaw ar gyfer offer mawr. Er mwyn sicrhau y glynir at yr holl agweddau iechyd a diogelwch allweddol, gweler yr adran gwiriadau safle.

## Hyrwyddo'r ddarpariaeth

Mae'n arfer da i gael llenyddiaeth sy'n eiriol dros hawl y plentyn i chwarae ac sy'n hyrwyddo ein lleoliad i blant, rhieni a gofalwyr, y gymuned a gweithwyr proffesiynol eraill. Gallai'r rhain gynnwys pecynnau gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr.


Yn yr un modd, gallai hyn gynnwys posteri y gallwch eu gosod o amgylch y man chwarae i gynyddu ymwybyddiaeth am werth chwarae neu gymryd risg wrth chwarae, er enghraifft.

## Cynllunio ar gyfer gwibdeithiau

Os ydym yn gyfrifol am drefnu gwibdeithiau, yna efallai y bydd ein cynllunio yn cynnwys trefnu cludiant, gweinyddu, darparu gwybodaeth, rheoli lefelau staffio, cynllunio ar gyfer gofynion cymorth plant unigol, a phennu rolau a chyfrifoldebau. Byddai'n ddoeth hefyd i fynd ar 'daith ymlaen llaw' i ddynodi unrhyw ddiffygion posibl yn y cynllun.

## Cynllunio gwaith cynnal a chadw, atgyweiriadau a gwiriadau safle

Dylid amserlennu a chynllunio gwiriadau ac atgyweiriadau rheolaidd ar y safle a'n hadnoddau fel ein bod yn ymyrryd cyn lleied â phosibl gyda chwarae'r plant. Yn ddelfrydol, dylai'r rhain ddigwydd cyn i'r plant fynychu. Yn ogystal â'r gwiriadau eu hunain, bydd angen inni sefydlu a gweithredu systemau effeithiol i gofnodi a gweithredu ar unrhyw gamau adferol a ddynodir trwy'r prosesau hyn.



# Datblygu fframwaith sefydliadol




Mae fframwaith sefydliadol yn cyfeirio at y polisïau a'r gweithdrefnau y bydd disgwyl i gyflogai a gwirfoddolwyr lynu atynt. Mae'r dogfennau hyn yn arwain yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y byddwn yn ei wneud ac, o ganlyniad, yn dylanwadu ar sut y mae'r lleoliad chwarae'n gweithredu. Mae'n bwysig bod ein polisïau a'n gweithdrefnau'n cefnogi arfer gwaith chwarae da, yn ogystal â sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd gofal i ddefnyddwyr y gwasanaeth ac yn cydymffurfio gyda chyfrifoldebau cyfreithiol ein sefydliad.

Mae gweithwyr chwarae'n gweithio'n unol â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ond rydym hefyd yn gweithio'n unol â'r ddeddf a rheoliadau eraill sy'n benodol i'n math o leoliad neu gyflogwr. Mae'r deddfau, y rheoliadau a'r cyfarwyddyd, a osodir gan lywodraethau a sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau, yn newid ac yn cael eu diweddaru'n barhaus. Gall cydbwyso'r gwahanol agendâu hyn, tra'n sicrhau fod y broses chwarae'n cael blaenoriaeth yn ein gwaith, fod yn dasg heriol. Ymysg yr holl ddeddfau, strategaethau a pholisïau hyn, ddylen ni fyth golli golwg ar y plentyn yn chwarae. Mae gweithwyr chwarae'n bodoli i gefnogi'r broses chwarae[5] ac mae rhaid inni fod yn effro i amddiffyn hawl y plentyn i chwarae ymysg agendâu oedolion sy'n rymus a chystadleuol.

Mae'n bosibl y bydd rhaid i weithwyr chwarae mewn gwahanol wledydd weithio i wahanol strategaethau, polisïau a rheoliadau yn ddibynnol ar agwedd llywodraeth eu gwlad tuag at blant. Mae sut y mae chwarae'n cael ei ystyried yn amrywio o wlad i wlad ac mae'n amrywio o fod yn offeryn ar gyfer gweithredu polisi cymdeithasol i hawl anhepgor sy'n allweddol ar gyfer lles a datblygiad plant.

Efallai y bydd darpariaeth gwaith chwarae ym mhob gwlad yn destun cyfundrefnau arolygu penodol hefyd. Er enghraifft, yng Nghymru ceir rheoliadau a safonau gofynnol penodol yng nghyd-destun gofal plant a darpariaeth chwarae wedi ei staffio, a reoleiddir ac a arolygir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Dylai uwch-weithwyr chwarae fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau penodol a bennir gan yr arolygiaethau hyn.

Yn yr adran hon byddwn yn edrych ar rai o'r meysydd polisi neu'r materion sydd o bryder cymdeithasol sy'n debyg o ddylanwadu ar sut y bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu. Ble fo modd, darperir enghreifftiau o'r DU i egluro'r mathau o ofynion a osodir ar weithwyr chwarae.

## Datblygu polisïau a gweithdrefnau

Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau sydd eu hangen ar leoliad chwarae'n dibynnu ar ei faint a lefel ei ffurfioldeb yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol, cyfarwyddyd statudol, rheoliadau a safonau penodol y mae gofyn iddo gydymffurfio â hwy. Er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith bydd rhaid inni:

- gadw i fyny gyda newidiadau
- gwybod am ofynion cyfreithiol a safonau a chyfarwyddyd anstatudol
- holi a herio ein hunain, ac eraill, i sicrhau bod sut y dehonglir y ddeddf (yn cynnwys rheoliadau a chyfarwyddyd) yn cefnogi chwarae plant.

Fel canllaw cyffredinol, dylai ein polisïau a'n gweithdrefnau fynd i'r afael â'r pynciau canlynol:

- Chwarae a phwrpas ein darpariaeth
- Rôl gweithwyr chwarae
- Cyfle cyfartal, cynhwysiant ac arfer anwahaniaethol
- Mynediad a hygyrchedd, yn cynnwys cofrestru'r plant a gweithdrefnau ar gyfer cyrraedd, gadael a chasglu plant
- Iechyd a diogelwch – yn cynnwys asesu risg-budd, hylendid bwyd a rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH)
- Rhoi meddyginiaethau ac arweiniad ar gyfer plant sy'n sâl neu'n heintus
- Diogelu – yn cynnwys gweithdrefnau amddiffyn plant, canllawiau gwrth-fwlio a pholisi chwythu'r chwiban
- Ymateb i ymddygiad heriol plant
- Côd ymarfer ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
- Gweithdrefn achwynion a chwyno ar gyfer plant, rhieni ac aelodau eraill o'r cyhoedd
- Diogelu data a chyfrinachedd
- Materion staffio, yn cynnwys recriwtio ac ymsefydlu, cymwysterau a hyfforddiant, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, arfarniadau a datblygiad proffesiynol.
- Ymweliadau a gwibdeithiau – teithiau oddi ar y safle.

Dylai'r casgliad hwn o bolisïau a gweithdrefnau ffurfio sail ar gyfer ymsefydlu staff a dylent fod yn hygyrch ac ar gael i bob aelod o staff, defnyddwyr y gwasanaeth, cyllidwyr ac arolygwyr.

## Chwarae a hawliau plant

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn sail i waith chwarae fel cysyniad yn ogystal ag yn ymarferol. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb arnom o'r lefel ryngwladol uchaf i osod hawl plant i chwarae wrth galon ein polisïau a'n gweithdrefnau.

Mae CCUHP wedi ei gadarnhau gan fwy o wledydd nag unrhyw gytundeb hawliau dynol arall yn y byd. Mae ambell wlad, fel Cymru, wedi mynd ymhellach trwy fabwysiadu CCUHP fel rhan o gyfraith ddomestig, gan osod dyletswydd gyfreithiol ar lunwyr polisïau i ystyried effeithiau ar hawliau plant.

Yn 2013 mabwysiadodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol rhif 17[6] sy'n egluro, i lywodraethau ar draws y byd, ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 CCUHP, sy'n cynnwys hawl plant i chwarae. Mae'r Sylw Cyffredinol hwn yn gwella dealltwriaeth o hawliau Erthygl 31 ac yn darparu arweiniad ar y gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i sicrhau ei weithrediad ar gyfer pob plentyn heb wahaniaethu.

Ceir mwy o wybodaeth am y Sylw Cyffredinol ar: www.chwarae.cymru/chwarae/hawl-i-chwarae/

Bydd deddfwriaeth genedlaethol ym mhob gwlad yn amrywio i ba raddau y mae'n gefnogol i chwarae plant. Yng Nghymru, mae ymrwymiad cryf i chwarae a gwaith chwarae trwy Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, tra caiff chwarae ei gydnabod fel elfen werthfawr mewn ambell bolisi, yn aml ni fydd yn cael ei ddilyn i fyny gyda mesur perfformiad[7]. Mae'r ffocysau polisi allweddol yn dueddol o fod ar chwarae a gostwng troseddu, chwarae a dysgu cynnar neu chwarae a gordewdra.

Fel y cydnabyddir yn Sylw Cyffredinol rhif 17, mae gweithgareddau strwythuredig, dan arweiniad oedolion yn fwy tebygol o gael eu cymeradwyo ac yn dueddol o gael eu ffafrio dros chwarae a hamdden anffurfiol. Mae'n hanfodol, felly, bod gan ein lleoliadau bolisi chwarae clir a chadarn sy'n pwysleisio ein hymrwymiad i gynnal hawl plant i chwarae ac sy'n canolbwyntio ar hyn fel pwrpas ein darpariaeth.


'Does dim angen i'n polisi fod yn hir neu'n gymhleth ond dylai, o leiaf, amlinellu bod:

- Chwarae'n allweddol bwysig i les a datblygiad plant ac yn darparu buddiannau pellgyrhaeddol ar gyfer plant, heddiw ac i'r dyfodol
- Chwarae yn broses reddfol naturiol sydd angen bod dan reolaeth y plentyn
- Gan bob plentyn hawl i chwarae, er bod eu cyfleoedd wedi cael eu cyfyngu fwyfwy gan gymdeithas gyfoes
- Amgylcheddau hyblyg a llawn symbyliaeth yn gallu cefnogi ac annog chwarae
- Plant eisiau ac angen cymryd risg fel rhan o'u chwarae.

Yn ogystal, dylai'r polisi gynnwys datganiadau am rôl y gweithwyr chwarae a sut y maent yn hwyluso chwarae yn y lleoliad. Dylai ddisgrifio agwedd gwaith chwarae sy'n gynhwysol, holistig ac anfarnol, ac sy'n seiliedig ar y fframwaith proffesiynol a moesegol – yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Dylai hanfod ein credau am chwarae a sut yr ydym yn ei gefnogi gael ei gynnwys hefyd yn y wybodaeth y byddwn yn ei rhoi i rieni. Bydd hyn nid yn unig yn egluro beth, sut a pham yr ydym yn hwyluso cyfleoedd chwarae, ond mae hefyd yn ffurfio rhan o'n cyfrifoldeb i eiriol dros bwysigrwydd chwarae.

## Cydraddoldeb

Yn y DU, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar sefydliadau i ddileu gwahaniaethu ac erledigaeth anghyfreithlon, hybu cyfleoedd cyfartal, a meithrin perthnasau da rhwng pobl. Dylai'r ystyriaethau hyn fod yn amlwg ym musnes dydd-i-ddydd darparwyr gwaith chwarae a dylid ei adlewyrchu yn ein polisïau a throsglwyddiad ein gwasanaeth.





Mae'r ddeddf yn mynnu bod gan bawb hawl i gael eu trin yn deg ac mae'n eu diogelu rhag gwahaniaethu ar sail nodweddion penodol fel anabledd, hil, crefydd, rhyw neu oedran. Mae hefyd yn gwarchod rhag gwahaniaethu anuniongyrchol, er enghraifft trin person yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'u nodweddion penodol neu fethu sicrhau 'addasiadau rhesymol' ar gyfer pobl anabl[8].

Gall gwneud 'addasiadau rhesymol' gyfeirio at:

1. Newid y modd y caiff pethau eu gwneud (megis newid polisi neu arfer sefydliad)
2. Newid nodweddion ffisegol (megis cael gwared â rhwystrau neu ddarparu amodau amgen rhesymol)
3. Darparu gwasanaethau neu gymhorthion ychwanegol (megis cymorth ychwanegol i unigolion).

Mae gwneud addasiadau rhesymol yn golygu sicrhau bod person anabl yn derbyn, mor agos â phosibl, wasanaeth o'r un safon a gynigir fel arfer i berson sydd ddim yn anabl. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn awgrymu y caiff 'rhesymol' ei ddiffinio gan effeithlonrwydd y newid arfaethedig, ei ymarferoldeb, y gost, a maint ac adnoddau ariannol y sefydliad. Mae'r ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' yn un sy'n 'rhagweld', hynny yw, allwn ni ddim aros tan fod plentyn anabl eisiau defnyddio ein darpariaeth, ond dylem feddwl a gweithredu ymlaen llaw ar yr hyn y gallai plant anabl, gydag ystod o namau, fod eu hangen.

Er mwyn atal gwahaniaethu, dylai cyflogai gael eu harwain gan bolisi cydraddoldeb priodol, telerau cyflogaeth eglur, a dylent gael mynediad i wybodaeth berthnasol, er enghraifft trwy hyfforddiant cydraddoldeb. Yn ogystal, mae'r ddyletswydd yn un barhaus a dylem adolygu ein darpariaeth yn rheolaidd i weld os ydym yn cyflawni anghenion yr holl blant sy'n mynychu mewn modd teg ac effeithlon. Gellir gwneud hyn trwy archwiliad mynediad.

Ceir mwy o wybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar: **www.equalityhumanrights.com**.

Fel gweithwyr chwarae rydym yn mynnu bod gan bob plentyn hawl i chwarae oherwydd bod pob plentyn angen chwarae. 'Rydym yn canolbwyntio ar chwarae'r plant tra'n cyflawni eu anghenion unigol ar yr un pryd, fel ein bod yn dileu anableddau'[9]. Mae'r sylw hwn gan Penny Wilson yn taflu goleuni ar nifer o bwyntiau allweddol yn ein hagwedd tuag at gydraddoldeb a chynhwysiant.

- Y chwarae sy'n bwysig. Ein prif gyfrifoldeb fel gweithwyr chwarae yw hwyluso a chefnogi'r broses chwarae. I blant, chwarae yw'r prif fodd ar gyfer gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasau cefnogol, ac mae 'ymdeimlad o gynhwysiant yn fwy dibynnol ar gyfeillgarwch a hwyl na dim ond bod yn yr un lleoliad ag eraill'[10].
- Bydd gwahanol blant yn profi plentyndod mewn gwahanol ffyrdd – dydi o ddim yn ffenomena unigol, cyffredinol[11]. Mae gan wahanol blant gymwyseddau a phrofiadau unigryw. Fodd bynnag, mae gan bob un ohonynt hawl i chwarae.

- Mae ein hagwedd tuag at gydraddoldeb yn un weithredol. ’Dydi hi ddim yn ddigon i fod eisiau cyfranogaeth pob plentyn – mae rhaid inni alluogi i gyfranogaeth ddigwydd yn barhaus[12]. Yn aml, fydd y rhwystrau pennaf i chwarae ddim yn rhai ffisegol, ond yn hytrach maen yn cynnwys agweddau a chredau ofnus[13].

## Iechyd a diogelwch

Tra byddai pawb yn cytuno bod iechyd a diogelwch yn bwysig a bod neb am weld damwain ddifrifol yn digwydd i blentyn nac i unrhyw un arall, mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch, ar brydiau, wedi cael ei defnyddio’n anghymesur a gyda’r nod amhosibl o ddileu pob risg. Mae deddfwriaeth a gynlluniwyd ar gyfer diwydiannau peryglus wedi ei chymhwyso, fel blanced, i gwmpasu pob galwedigaeth, gan gynnwys rhai ble mae peryglon difrifol yn hynod o brin, fel gwaith chwarae. Mae pryderon ynghylch ymgyfreithiad a honiadau marchnata ymosodol cwmnïau rheoli hawliadau wedi arwain llawer o bobl i fabwysiadu agwedd amddiffynnol, ofnus tuag at weithio â phlant fydd, yn ein barn ni, ddim yn gosod eu chwarae a’u lles yn gyntaf.

Yn ffodus, mae llawer o bobl yn y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, yn ogystal â llawer o rieni, yn herio’r hinsawdd llawn ofn sydd wedi datblygu o gwmpas iechyd a diogelwch. Yn allweddol ddigon, mae hefyd yn cael ei herio gan reolyddion a gan y llywodraeth ei hun.


Yn y DU, mae darpariaeth chwarae’n cael ei reoli’n gyfreithiol gan ddeddfwriaethau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac Atebolrwydd Deiliaid. Mae’r Deddfau Senedd y DU hyn yn ‘gosod dyletswydd gofal ar ddarparwyr a deiliaid’[14]. Yn bwysig iawn, mae’r lefel o ofal sydd ei hangen yn awgrymu bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau wneud yr hyn sy’n rhesymol i warchod defnyddwyr y gwasanaeth rhag niwed. Fel yr eglurir yn *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*:

‘Nid oes unrhyw ofyniad o dan y Ddeddf i ddileu neu leihau risg, hyd yn oed ble fo plant dan sylw… mae’r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayyb yn mynnu bod risgiau’n cael eu lleihau “cyn belled a bo’n rhesymol ymarferol”. Cyfeiriwyd yn benodol at y gofyniad cyfreithiol o gynnal asesiadau risg, y mae’r egwyddor hon yn ei ymhlygu, yn *Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith* … Mae’r rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr i gynnal “asesiad addas a digonol” o’r risgiau sy’n gysylltiedig â safle neu weithgaredd, a gweithredu’n unol â hynny.’

Mae’r awduron yn mynd ymlaen i bwysleisio ymhellach egwyddor ‘rhesymoldeb’ a phwysigrwydd talu sylw i ddoniau plant:

‘Dywed Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957: “Y ddyletswydd gofal cyffredin yw … sicrhau y bydd yr ymwelydd yn rhesymol ddiogel tra’n defnyddio’r lleoliad.” Mae’n datgan hefyd y dylai “deiliad fod yn barod i blant fod yn llai gofalus nag oedolion”. Fodd bynnag, dengys dyfarniadau o’r llysoedd, tra eu bod yn ystyried bod plant yn llai gofalus nag oedolion, nad ydynt yn ystyried eu bod yn ddiofal, anghymwys neu fregus mewn unrhyw synnwyr absoliwt. Wrth iddynt dyfu, gellir disgwyl iddynt dderbyn mwy a mwy o gyfrifoldeb am eu diogelwch personol’[15].

Maent hefyd yn cyfeirio at gefnogaeth gyfreithiol ar gyfer meddwl am fuddiannau chwarae ochr-yn-ochr ag unrhyw risgiau posibl: Mae Deddf Iawndal 2006 yn datgan y gall y llysoedd ystyried buddiannau gweithgareddau tra’n ystyried y ddyletswydd gofal.



Yn 2010, cyhoeddodd llywodraeth y DU *Common Sense, Common Safety*[16], wnaeth argymell mabwysiadu agwedd 'synnwyr cyffredin' tuag at iechyd a diogelwch, ac i symud oddi wrth asesu risg ac at asesu risg-budd. Yn ogystal, ystyriodd adolygu Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, er mwyn gwahanu chwarae a hamdden oddi wrth gyd-destunau gweithleoedd. O ran mannau chwarae plant, mae'r adroddiad yn nodi:

'Ceir cred gyffredin yn y sector chwarae bod camddehongliadau o'r Ddeddf yn arwain at greu mannau chwarae difflach sydd ddim yn galluogi plant i brofi risg. Mae chwarae o'r fath yn allweddol i ddatblygiad plentyn ac ni ddylid ei aberthu ar draul asesiadau risg gorfrwdfrydig ac anghymesur'[17].

Gorfodir deddfwriaeth iechyd a diogelwch ym Mhrydain gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), y corff gwarchod annibynnol cenedlaethol dros iechyd a diogelwch cysylltiedig â gwaith. Yn 2012 cyhoeddodd yr HSE ddatganiad lefel uchel[18] oedd yn hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at risg.

Mae'r datganiad hwn yn egluro:

- Bod chwarae'n bwysig ar gyfer lles a datblygiad plant
- Tra'n cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, y nod fydd nid dileu risg, ond yn hytrach bwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau
- Y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli'r gwir risgiau, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid ar y gwaith papur
- Bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond mae ofn ymgyfreithiad ac erlyniadau wedi tyfu i fod yn gwbl anghymesur.

Yn ogystal, mae'r HSE wedi cymeradwyo canllaw dylanwadol y Play Safety Forum – *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*. Mae'r canllaw hwn yn cydnabod bod plant angen heriau ac ansicrwydd yn eu chwarae ac mae'n disgrifio sut y gall darparwyr chwarae gydbwyso buddiannau chwarae'n erbyn y risgiau. Bellach, cydnabyddir y broses hon o asesu risg-budd 'fel agwedd briodol tuag at reoli risg ar draws chwarae, hamdden ac addysg'[19].

## Asesu risg-budd

Cyn inni ystyried elfennau penodol pa batrwm y gallai asesiad risg-budd ei gymryd, mae'n hanfodol ein bod yn meddu ar 'athroniaeth, sail resymegol, neu bwrpas cytûn, a'n bod yn datgan beth yw hyn'[20]. Mae angen i benderfyniadau gael eu llunio yn erbyn cefndir polisi sy'n egluro'r gwerthoedd a'r egwyddorion fydd yn sail ar gyfer ein penderfyniadau sy'n ymwneud â risg, a pham fod risg yn elfen allweddol o chwarae plant. Dylai'r ethos o asesu risg yn ogystal â budd gael ei adlewyrchu hefyd yn y wybodaeth a roddwn i rieni ac oedolion eraill, er mwyn eu hysbysu yn ogystal â herio unrhyw agweddau ofn risg.

Gall y broses o werthuso ystod eang o risgiau a buddiannau fod yn gymhleth a dyrys ac mae'n galw am wybodaeth fanwl o'r ddau, ond 'does dim rhaid iddi fod yn llethol nac yn or-fiwrocrataidd. Pwrpas cynnal asesiad risg-budd yw rheoli lles, iechyd a diogelwch plant fel bod modd iddynt chwarae. Nid yw'n ymwneud yn bennaf ag osgoi atebolrwydd. Mae cyfraith y DU yn mynnu y dylai gweithwyr chwarae gadw cofnodion yn nodi eu hasesiadau risg ac mae rheoli a monitro trywydd archwilio eglur yn rhan o reoli risg da. Fel uwch-weithwyr chwarae, byddwn yn sicrhau bod ein hasesiadau risg-budd yn hygyrch, yn ddiogel ac wedi eu diweddaru a'u bod yn cael eu hysbysu gan bolisi'r sefydliad a bod y staff i gyd yn eu deall.

Yn y bôn mae 'asesu risg-budd yn offeryn ar gyfer gwella llunio penderfyniadau mewn unrhyw gyd-destun ble fo rhaid taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau'[21]. I weithwyr chwarae, gallai sefyllfaoedd arferol sy'n galw am asesu risg-budd gynnwys defnydd plant o ddŵr neu dân, plant yn dringo a chwarae ar uchder, plant yn defnyddio offer (*tools*), strwythurau wedi eu hunan-adeiladu, adeiladu siglenni rhaff ac yn y blaen. Pwrpas y broses yw llunio barn resymol a deallus. Yn bwysig iawn, gallai'r broses hon gynnwys mewnbwn cyngor arbenigol. Ceir sefyllfaoedd, fel rhai sy'n galw am ddealltwriaeth dechnegol fanwl, sydd y tu hwnt i allu llawer o weithwyr chwarae. Er enghraifft, beth yw'r pren priodol ar gyfer adeiladu ac oblygiadau unrhyw safonau diwydiannol. Gall arbenigwyr o'r fath gynnig cyngor ac arweiniad fydd o gymorth ond mae'r penderfyniad terfynol, a'r cyfrifoldeb o dan y ddeddf, ynghylch taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau, yn sefyll gyda'r darparwr[22].

Isod, rydym wedi nodi cyfres o gwestiynau cyffredinol allan o *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* allai lunio sylfaen ar gyfer asesiad risg-budd[23]. Y nod yw tystio i farn resymol ac ymarferol ac, felly, dylech ystyried cynnwys ffynonellau i'r wybodaeth yr ydych wedi ei defnyddio i lunio eich barn. Gallai asesiad risg-budd eich annog i ystyried:

- Beth yw'r buddiannau ar gyfer plant a phobl eraill? Gallent gynnwys yr ystod o fuddiannau gaiff chwarae ar les a datblygiad plant, buddiannau i'r gymuned leol, buddiannau costau llai, a / neu fuddiannau o ostyngiad mewn peryglon annymunol.
- Beth yw'r risgiau? Gallai'r rhain gynnwys y risg o niwed ac anafiadau i blant, risg derbyn cwynion neu ymgyfreithiad, risg difrod amgylcheddol, a risgiau ariannol.
- Pa safbwyntiau sydd ar gael ar natur y risg a pha mor awdurdodol yw'r rhain? Gallai'r rhain gynnwys arbenigwyr technegol, arweiniad oddi wrth fudiadau atal damweiniau, a chyhoeddiadau awdurdodol gan fudiadau chwarae cenedlaethol.
- Pa ffactorau lleol perthnasol sydd angen eu hystyried? Gallai hyn gynnwys nodweddion yr amgylchedd lleol a'r defnyddwyr tebygol.
- Beth yw'r opsiynau ar gyfer rheoli'r risg, a beth yw manteision, anfanteision a chostau pob un? Dylid gwerthuso'r opsiynau, a thrafod unrhyw wybodaeth newydd. Mae posibiliadau'n cynnwys cynyddu'r cyfleoedd wnaeth arwain at yr asesiad, lleihau neu ddileu'r risg, gwneud dim, a monitro'r sefyllfa.
- Pa gynseiliau a chymariaethau sydd ar gael? Gallai'r rhain fod o fannau neu wasanaethau tebyg yn ogystal â gan ddarparwyr eraill.
- Beth yw'r farn risg-budd? Mae'r rhain yn dibynnu ar bolisïau ac amcanion y darparwr yn ogystal â'r amgylchiadau lleol. Dylai'r barnau hyn gael eu monitro a'u hadolygu o dro i dro.
- Sut ddylid gweithredu'r farn hon o ystyried pryderon gwleidyddol, credau ac agweddau diwylliannol lleol? Gallai hyn gynnwys ystyried safbwyntiau rhieni ac oedolion lleol eraill, darparwyr lleol, ac ystyried traddodiadau lleol.

Mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* yn eiriol dros agwedd ddisgrifiadol neu naratif tuag at asesu risg-budd, sydd ddim yn cynnwys cyfrifiadau rhifol a gosod gwerth ar risgiau a buddiannau. 'Does dim synnwyr ceisio sgorio crafiad ar ben-glin yn erbyn y wefr o hedfan ar weiren wib. 'Dyw hi ddim yn gwneud synnwyr ychwaith i raddio effaith cyhoeddusrwydd gwael o dro i dro gan oedolion gor-amddiffynnol yn erbyn y buddiannau i blant o gyfarwyddo eu chwarae eu hunain a datblygu gwytnwch ac annibyniaeth. Oherwydd y rhesymau hyn, mae'n well defnyddio agwedd ddisgrifiadol.

Mae Ball a Ball-King[24] yn glir mai pobl leol yw'r ffynhonnell orau ar gyfer cwblhau asesiadau risg-budd manwl gywir gan mai nhw sy'n deall y sefyllfa leol a'u bod yn fwy tebygol o fod yn gyfarwydd gydag amcanion polisi lleol hefyd. Hyd yn oed pan fydd angen arbenigedd penodol, maent yn nodi bod yr HSE wedi dynodi bod arbenigedd lleol yn fwy dymunol eto. I ni, mae hyn yn golygu bod yn well i asesiadau risg-budd penodol gael eu cyflawni gan weithwyr chwarae lleol sydd â gwybodaeth fanwl am y plant y maent yn eu gwasanaethu a'r amgylchedd a'r gymuned y maent yn gweithio ynddynt.

### Safonau offer chwarae

Mae gan lawer o wledydd safonau cytûn ar ddarparu offer chwarae sefydlog a'r arwynebau a osodir oddi tanynt. Mae'n debyg y bydd y safonau hyn o ddefnydd mewn cyfleusterau chwarae penodedig fel meysydd chwarae antur sydd â strwythurau gwneuthuredig neu hunan-adeiladu.

Er enghraifft, ceir safonau a osodwyd gan Asiantaeth Safonau Ewrop a'u cyhoeddi yn y DU fel safonau Prydeinig. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn orfodol, ac nid yw cydymffurfio â nhw yn ofyniad cyfreithiol[25]. Yn hytrach, dylid ystyried y safonau hyn fel canllawiau sy'n cynrychioli 'rhagofalon synhwyrol' ac fel un elfen allweddol yn y broses o reoli risg ac nid fel gofyniad unigol[26].

'Mae asesiad risg-budd "addas a digonol" … yn gyfrwng ar gyfer llunio barn os yw safon, cyfarwyddyd neu nodyn cynghori yn gymwys ai peidio mewn sefyllfa benodol'[27]. Mewn geiriau eraill, asesu risg-budd yw'r prif fodd ar gyfer llunio barn am ansawdd y ddarpariaeth chwarae.

## Asesu risg-budd dynamig

Yn bwysig iawn ar gyfer y broses o asesu risg-budd, bydd lefelau risg yn amrywio ar gyfer pob plentyn yn dibynnu ar oed, gallu, profiad, natur, a'r cyd-destun a'r amodau lleol a chymdeithasol. Caiff plant eu gyrru'n reddfol i archwilio a rhoi tro ar ymddygiadau newydd all fod yn gymhleth, newidiol, ac yn ddibynnol ar newidion dirifedi. Mae'r natur anrhagweladwy hon y tu hwnt i gwmpas unrhyw asesiad ysgrifenedig ymarferol. Nid yw asesu risg-budd dynamig yn disodli'r angen am asesiad ysgrifenedig, yn hytrach mae'n bartner naturiol iddo.

Mae asesu risg-budd dynamig yn cyfeirio at 'arsylwadau munud-wrth-funud ac ymyriadau posibl gan oedolion sy'n goruchwylio plant mewn darpariaeth wedi ei staffio'[28]. Mae'n rhan hanfodol o reoli risg mewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio ac yn grefft hanfodol ar gyfer pob gweithiwr chwarae. Er mwyn bod yn effeithlon, mae'n galw am:

- Wybodaeth ymarferol fanwl o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad
- Dealltwriaeth am risg a'i rôl yn lles a datblygiad plant
- Dealltwriaeth o wahanol ymddygiadau chwarae a sut y maent yn edrych ar waith
- Lefel o hunan-adnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o 'sbardunau' personol
- Gwerthfawrogiad o amodau lleol a diwylliant y gymuned leol
- Y ddawn i feddwl yn gyflym a chyfaddasu i amgylchiadau, hyd yn oed dan bwysau.

Fel gweithwyr chwarae, mae rhaid inni rannu a thrafod ein dealltwriaeth o risg, a sut y byddwn yn ei reoli o fewn ein tîm, yn barhaus. Mae myfyrio, rhannu gyda'n cydweithwyr a dysgu oddi wrth ein gilydd yn cynnig ffyrdd o gyfathrebu arfer gorau, o ddysgu oddi wrth bethau aeth yn dda a phethau aeth ddim cystal â'r disgwyl, a sicrhau lefel o gysondeb yn ein lleoliad. Fel uwch-weithwyr chwarae gallwn gefnogi'r broses hon trwy hyfforddiant a darparu staff gydag arfau syml, fel siartiau llif, i arwain eu harfer. Fodd bynnag, fel yr ysgrifenna Gill: 'gall gormod o arweiniad, ar lefel rhy fanwl, fod yn wrthgynhyrchiol, oherwydd y gall ategu agwedd wyrdroëdig tuag at reoli risg sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio technegol yn hytrach na meddwl beirniadol a datrys problemau rhagweithiol'[29].

## Gwiriadau safle

Mae gwiriadau safle'n rhan bwysig arall o'n harferion rheoli risg ac maent yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o'r mannau y bydd plant yn chwarae ynddynt er mwyn dynodi peryglon annymunol ac i weithredu i'w gwaredu neu eu lliniaru. Gall hyn gynnwys archwilio ein hadnoddau, gwirio am ddifrod ac ôl traul, cwblhau profion arferol a chynnal a chadw strwythurau a glanhau ar ôl sesiynau chwarae. Dylid cynnal gwiriadau safle mewn modd a gofnodir yn ffurfiol, er mwyn sicrhau bod cofnod parhaus o faterion a ddynodwyd ac i amlygu unrhyw anghenion cynnal a chadw neu gamau gweithredu a gyflawnwyd. Os digwydd anaf, bydd gwiriadau safle wedi eu cofnodi'n darparu tystiolaeth bod y darparwr chwarae wedi cynnal a chadw'r safle i lefel resymol.



Yn dibynnu ar natur ein darpariaeth gwaith chwarae, gall y gwiriadau safle hyn amrywio o archwiliadau dyddiol o'r amgylchedd yn gyffredinol ymlaen i archwiliadau blynyddol o'r strwythurau chwarae. Dylai pob aelod o staff fod yn rhan o gynnal a chadw amgylchedd addas sy'n rhydd o beryglon diangen a gall dysgu sut i gynnal gwiriadau safle cynhwysfawr fod yn rhan o gyfnod ymsefydlu gweithiwr chwarae a'u cynllun datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, fel uwch-weithwyr chwarae, ni sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr hyn sydd angen ei wneud yn cael ei wneud.

Ble fo angen gwybodaeth fwy arbenigol, er enghraifft wrth archwilio cyflwr strwythurau chwarae, efallai y penderfynwn gomisiynu adroddiad oddi wrth archwilydd cofrestredig. Mae'n hanfodol hefyd i fod â phobl sydd â chymwysterau addas i alw arnynt os byddwn yn dynodi peryglon na allwn ni eu gwneud yn ddiogel ein hunain.

### Pryderon rheoli risg eraill i fod yn ymwybodol ohonynt

- **Hylendid bwyd** – Yn y DU, mae hylendid bwyd yn cael ei fframio gan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ac yn ddiweddarach gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, wnaeth sefydlu Yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae deddfwriaethau eraill yn cynnwys Rheoliadau Hylendid Bwyd 2006, sy'n gymwys ledled y DU. Darperir cyfarwyddyd penodol ar weithredu diogelwch bwyd gan Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ogystal ag awdurdodau lleol.
- **Adrodd ar anafiadau, clefydau neu ddigwyddiadau oeryglus** – Yn y DU, mae rhaid i weithwyr chwarae gofnodi a hysbysu'r HSE os digwydd anafiadau difrifol (fel rhai sy'n galw am driniaeth mewn ysbyty) a chlefydau penodol.
- **Rheoli sylweddau peryglus i iechyd** – Yn y DU, dylai gweithwyr chwarae asesu a gwerthuso risgiau posibl i iechyd unrhyw sylweddau allai fod yn beryglus a rhoi mesurau rheoli yn eu lle. Er enghraifft, sicrhau bod paent yn ddiwenwyn neu fod cemegau niweidiol, fel cannydd, yn cael eu storio'n ddiogel.

### Yswiriant

Mae rhaid i ddarparwyr gwaith chwarae feddu ar Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn ogystal ag Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr. Mae'n ddefnyddiol adolygu polisïau yswiriant yn rheolaidd a'u trafod â darparwyr eraill er mwyn dynodi cwmnïau yswiriant sy'n gefnogol i'r agwedd gwaith chwarae.

Mae yswiriant yn chwarae rhan bwysig gan ei fod yn darparu rhwyd arbed ariannol i ddarparwyr os digwydd damwain neu golled arall. Fodd bynnag, ni fwriedir i yswiriant atal damweiniau neu golledion, ac ni ddylai fod yn elfen ysgogol ar gyfer rheoli risg neu drosglwyddo gwasanaethau.

Dylid trafod ein polisi rheoli risg a'n asesiadau risg-budd gydag yswirwyr, er mwyn sicrhau agwedd gytûn ac i gynorthwyo darparwyr ac yswirwyr hefyd i gyfyngu ar y nifer o hawliadau gaiff eu cyflwyno.

## Diogelu plant

Fel y mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn groyw, mae diogelu plant yn ymwneud â'r camau y byddwn yn eu cymryd i hybu lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed[30]. Wrth gwrs, mae amddiffyn plant yn rhan o'r rôl diogelu ehangach hon ac mae gwir angen i blant gael eu hamddiffyn rhag oedolion ysglyfaethus, ecsploetiaeth, niwed bwriadol a difrifol, trais domestig, esgeulustod a bwlio. Fodd bynnag, ni ddylid ceisio'r diogelwch yma ar draul plant yn mwynhau'r rhyddid bob dydd sydd ei angen iddynt allu chwarae, gan mai trwy chwarae y bydd plant yn cynnal ac yn datblygu eu dawn i ofalu am eu hunain ac am ei gilydd. Fel gweithwyr chwarae, dylai ein pwyslais ni fod ar gefnogi ac atgyfnerthu plant, cynnal golwg eang ar ein rôl ddiogelu, tra hefyd yn sicrhau ein bod yn cwmpasu ein rôl i amddiffyn plant yn ddigonol. O'r safbwynt hwn, gellir ystyried diogelu fel mater rheoli risg arall sy'n galw am agwedd gytbwys.

Unwaith eto, mae llawer mwy i rôl gweithiwr chwarae o ran diogelu plant na'r hyn a drafodir yma.



Nid yw'r canllaw hwn yn delio gyda phryderon penodol am amddiffyn plant na'r ffyrdd y gellid dynodi neu ddatgelu'r rhain nac ymateb iddynt. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y systemau sefydliadol sydd angen bod yn eu lle i gefnogi gweithwyr chwarae wrth ddiogelu plant. Mae meddu ar bolisïau a gweithdrefnau cadarn yn rhan hanfodol o hyn ond ddylai diogelu ddim stopio yn y fan honno. Fel uwch-weithwyr chwarae gallwn helpu i feithrin diwylliant sefydliadol agored a gonest ble mae pawb yn ddeall eu cyfrifoldebau ac yn teimlo bod cefnogaeth iddynt rannu eu pryderon.

Mae ein perthnasau gyda'r plant wrth galon ein prosesau diogelu, gan mai trwy wrando arnynt a thrwy ein sgyrsiau gyda nhw y bydd ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn ffynnu. Mae meithrin perthnasau gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn hanfodol hefyd os ydyn ni i'w cefnogi nhw a'u plant. Mae creu cysylltiadau a datblygu perthnasau gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill yn hanfodol hefyd, gan mai dim ond trwy weithio gyda'n gilydd y bydd gwir sail i ddiogelu.

## Gweithdrefnau amddiffyn plant

Dylai ein gweithdrefnau amddiffyn plant egluro beth i'w wneud os ydym yn bryderus ynghylch plentyn allai fod yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod. Mae'n debyg y bydd gan wledydd unigol eu canllawiau cenedlaethol eu hunain ar gyfer gwneud atgyfeiriadau amddiffyn plant, er enghraifft yng Nghymru ceir Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r gweithdrefnau hyn yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr, eu dyletswydd i adrodd am bryderon a sut i wneud hynny. Fel uwch-weithiwr chwarae, mae'n hanfodol ein bod yn deall ein prosesau adrodd lleol a'n bod yn gallu cefnogi aelodau eraill o staff i wneud atgyfeiriadau, yn enwedig os mai ni yw'r person diogelu enwebedig ar ran ein sefydliad.

## Chwythu'r chwiban

Dylai polisïau diogelu gyfeirio at weithdrefn chwythu'r chwiban yn y sefydliad sy'n cyflogi – mae'n debyg y cedwir hwn ar wahân, oherwydd ei fod yn delio â sut i godi pob agwedd ar arfer gwael, nid dim ond pryderon diogelu.

Os yw'n anodd gwneud atgyfeiriad yn seiliedig ar bryderon am riant neu ofalwr, bydd weithiau'n anos fyth i fynd â phryder ynghylch cydweithiwr ymhellach. Ond mae hyn yn rhan o'n cyfrifoldeb diogelu cyffredinol – yn achlysurol iawn, gall pobl ddal i lithro trwy'r rhwyd recriwtio diogel neu'r prosesau hyfforddi ac ymsefydlu (er, y gorau yw'r rhain, y llai tebygol y mae hyn o ddigwydd).

Mae gweithdrefn chwythu'r chwiban yn egluro sut i fynegi unrhyw anesmwythyd y gallem ei deimlo am ymddygiad cydweithiwr ac mae'n ystyried unrhyw ofnau, pryderon neu euogrwydd o wneud hynny. Mae'n sicrhau na chaiff staff a gwirfoddolwyr eu cosbi am godi pryderon gwirioneddol, hyd yn oed os yw'r rhain yn troi allan i fod yn ddi-sail. Dylai egluro hefyd beth fyddai'r canlyniadau ar gyfer unrhyw un fyddai'n cyflwyno adroddiad maleisus am ffug-bryder.

## Honiadau yn erbyn staff neu wirfoddolwyr

Dylem feddu ar weithdrefnau clir yn ein polisi diogelu am yr hyn ddylid ei wneud os yw plentyn yn honni bod aelod o staff neu wirfoddolwr wedi peri niwed iddynt neu eu rhoi mewn perygl. Dylai fod yn gwbl eglur pwy ddylai hysbysu pwy – dan amgylchiadau cyffredin byddai hyn yn cynnwys y prif swyddog neu bennaeth y sefydliad a'r person diogelu enwebedig. Pe bae'r honiad wedi ei wneud yn erbyn un o'r ddau hyn, dylai'r weithdrefn egluro pwy i gysylltu â nhw.

Dylid ymdrin â honiadau mewn modd sensitif a'u datrys yn gyflym, heb beryglu ymchwiliad fydd, er gwaethaf hynny, yn gwbl drylwyr. Nid yw diarddel yr aelod o staff neu'r gwirfoddolwr am oes yr ymchwiliad yn fater arferol – ddylai hyn ond digwydd os oes tystiolaeth gynnar ddigonol i gyfiawnhau hyn. Dylai'r plentyn a'r aelod o staff gael eu diweddaru'n rheolaidd a dylent dderbyn mynediad i gymorth. Bydd sefydliad sy'n meithrin diwylliant agored, sy'n hyrwyddo arfer myfyriol ac sy'n gosod pobl wrth galon ei waith, yn delio â'r digwyddiadau hyn â llawer mwy o hyblygrwydd a sensitifrwydd na rhai sydd â safbwynt mwy anhyblyg.




## Diogelu data a chyfrinachedd

Mewn lleoliadau gwaith chwarae, mae casglu gwybodaeth bersonol am blant a'u teuluoedd yn rhan bwysig o ddiogelu defnyddwyr ein gwasanaeth a gall ein helpu i ffurfio ein gwasanaeth o'u hamgylch. Mae gwybodaeth bersonol yn golygu unrhyw ddata y gellid ei ddefnyddio i adnabod unigolyn. Mae'r math o wybodaeth bersonol y gallem ei chasglu'n cynnwys: enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn, manylion cyswllt brys, alergeddau a gofynion dietegol, namau, cyflyrau meddygol a chynlluniau cymorth personol. Efallai y byddwn hefyd am ddefnyddio lluniau o'r plant yn ein deunydd marchnata. Bydd rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio data personol fel hyn lynu at reolau ar sut y dylid storio a defnyddio'r wybodaeth.

Unwaith i sefydliad greu cofnod am blentyn neu oedolyn, mae rhaid iddo fod â pholisi a gweithdrefn yn eu lle ynghylch cadw a storio'r wybodaeth hon. Os byddwch yn creu cofnodion am y plant neu'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau neu eich gweithgareddau, mae'n arfer gorau i'w hysbysu o'r dechrau eich bod yn cadw cofnodion o'r fath yn ogystal â'u dibenion.

Yn y DU, mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rheoli'r modd y gall sefydliadau gasglu, defnyddio a storio gwybodaeth bersonol. Cefnogir y ddeddfwriaeth hon gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod annibynnol a sefydlwyd i ddiogelu hawliau gwybodaeth.

Ceir gwybodaeth gynhwysfawr am ddiogelu data ar eu gwefan: **www.ico.org.uk**.

Mae'r ICO yn egluro bod y GDPR yn amlinellu saith egwyddor allweddol ynghylch sut y dylai sefydliadau drin data personol:

- **Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder** – mae rhaid ichi ddynodi rhesymau dilys ar gyfer casglu a defnyddio data personol.
- **Cyfyngiad diben** – mae rhaid ichi fod yn glir ynghylch eich diben ar gyfer prosesu'r data o'r cychwyn cyntaf.
- **Lleihau data** – mae rhaid ichi sicrhau bod y data personol yr ydych yn ei brosesu'n ddigonol, yn berthnasol ac wedi ei gyfyngu i ddim ond yr hyn sydd ei angen.
- **Cywirdeb** – dylech gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r data personol yr ydych yn ei ddal yn anghywir nac yn gamarweiniol.
- **Cyfyngiad ar storio** – ni ddylech gadw data personol am gyfnod hwy na'r angen.
- **Diogelwch a chyfrinachedd** – mae rhaid ichi sicrhau bod gennych fesurau diogelwch priodol yn eu lle i warchod y data personol yr ydych yn ei ddal.
- **Atebolrwydd** – mae gofyn ichi dderbyn cyfrifoldeb am yr hyn y byddwch yn ei wneud gyda'r data personol a sut y byddwch yn cydymffurfio â'r egwyddorion eraill.

Tra ei bod yn debyg y bydd gan sefydliadau mwy o faint adnoddau a phrosesau pwrpasol ar gyfer rheoli diogelu data, mae'r ICO yn argymell y pum cyngor canlynol ar gyfer elusennau a mudiadau trydydd sector llai o faint[31].

- Dylai pobl wybod beth ydym yn ei wneud â'u gwybodaeth a gyda phwy y byddwn yn ei rhannu. Er enghraifft, byddwn yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod pam ein bod angen manylion penodol am eu plentyn. Yn ogystal, dylai rhieni gael gwybod gyda phwy y byddwn yn rhannu'r wybodaeth (er enghraifft, y gwasanaethau cymdeithasol) ac â phwy na fyddwn yn rhannu'r wybodaeth (er enghraifft, rhieni eraill).
- Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n gywir am ddiogelu data. Er enghraifft, os mai ni yw'r uwch-weithiwr chwarae yna dylem sicrhau bod ein staff yn gwybod sut y mae GDPR yn effeithio arnynt.
- Defnyddio cyfrineiriau cryfion i warchod gwybodaeth gaiff ei storio'n electronig. Dylid cadw cofnodion papur yn ddiogel hefyd.
- Amgryptio unrhyw ddyfeisiau symudol. Mae hyn yn cynnwys pethau fel gliniaduron a chof bach (memory stick) sy'n cynnwys data personol.
- Dylid ond cadw gwybodaeth pobl am gyn hired ag sydd angen. Er enghraifft, ni ddylid cadw gwybodaeth fanwl am blant wedi iddynt stopio mynychu'r ddarpariaeth chwarae.

## Gwaith papur

Mae gwaith papur cadarn yn hanfodol ar gyfer helpu i weithredu ein polisïau a'n gweithdrefnau. 'Does dim diben cael systemau yn eu lle os na fyddwn yn glynu atynt. Mae gwaith papur cywir wedi ei ddiweddaru'n sicrhau safon trosglwyddo well sy'n ateb gofynion cyfreithiol yn ogystal ag arddangos arfer gweithio da. Mae hyn yn rhan allweddol o fod yn agored ac atebol. Bydd y dystiolaeth hon yn ein gwarchod ni, y plant, y lleoliad chwarae, ac yn ein helpu i gynllunio. Fodd bynnag, tra dylem gadw'r hyn sy'n hanfodol ac yn berthnasol, ddylen ni ddim bod ofn rhwygo gwaith papur diangen ac amherthnasol – mae rhacs papur yn adnodd chwarae gwych!

Gallai'r gwaith papur y byddwn yn ei gynhyrchu gynnwys:

- **Ffurflenni cofrestru** – Os ydym yn lleoliad cofrestredig bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) sy'n briodol i'r wlad yr ydym yn gweithio ynddi, yn galw arnom i gadw amrywiol ddarnau o wybodaeth am bob plentyn yn ogystal â gwybodaeth ddymunol arall. Gweler yr NMS perthnasol i sicrhau bod ffurflenni'n cynnwys y manylion angenrheidiol. Mae'n ddefnyddiol hefyd i gasglu manylion gofynion penodol ar gyfer materion fel gofal personol.
- **Ffurflenni caniatâd** – Mae'r rhain yn ffurflenni sy'n rhoi caniatâd inni gan rieni a gofalwyr, er enghraifft, i fynd ar daith neu i ddefnyddio ffotograffau a chlipiau ffilm o'u plant mewn cyhoeddusrwydd. Mae rhaid i ffurflenni caniatâd gael eu llofnodi. Bydd pa mor hir y byddwn yn cadw ffurflenni caniatâd yn dibynnu ar ein polisi neu un ein hawdurdod lleol. Yn ddelfrydol, dylid cadw ffurflenni caniatâd ar gyfer defnyddio delweddau gweledol o blant am oes defnyddio'r llun.
- **'Llyfrau Fi'** – Mae llyfrau amdanaf 'Fi' yn offeryn cynhwysiant sy'n cynorthwyo plant anabl i fynegi pwy ydyn nhw, yr hyn y maent yn hoffi a ddim yn hoffi ei fwyta, a beth bynnag arall yr hoffent ei gynnwys. Maent yn ffordd o gynorthwyo pawb i symud heibio'r model meddygol o blentyn anabl ac i edrych arnynt fel unigolyn.
- **Cofrestrau dyddiol** – Os ydym yn rhedeg lleoliad gofal plant y tu allan i oriau ysgol mae gofyn inni gadw cofnod o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Nid yw hyn yn orfodol ar gyfer lleoliad mynediad agored, er y gall rhai lleoliadau ddefnyddio system arwyddo i mewn.
- **Gwiriadau safle a diogelwch** – Dylid cadw cofnodion gwiriadau diogelwch megis gwiriadau dyddiol, wythnosol neu fisol.
- **Cofnodion digwyddiadau a damweiniau** – Mae cofnodion damweiniau'n ddata sensitif a dylid eu trin felly. Bydd rhaid inni gadw'r cofnod am o leiaf dair blynedd o ddyddiad ei greu.

- **Cofnodion diogelu ac atgyfeiriadau amddiffyn plant** – Dylid cofnodi pryderon am les neu ddiogelwch plentyn, fel y dylid cofnodi pryderon am ymddygiad cyflogai neu wirfoddolwr. Mae'n hanfodol bwysig cofnodi pob manylyn perthnasol, waeth os yw'r pryderon hyn yn cael eu rhannu â'r heddlu neu â'r adran gofal cymdeithasol plant ai peidio. Dylid arwyddo pob cofnod.
- **Dyddiaduron dyddiol, dyddiaduron myfyriol, myfyrdodau cyfoedion a myfyrdodau grŵp** – Mae'r rhain yn gofnodion o fyfyrdodau personol, cyfoedion a grŵp y byddwn yn eu cwblhau fel rhan o'n harfer myfyriol. Gallant gynorthwyo gydag archwilio'r man chwarae a helpu i wella ein harfer personol yn ogystal ag arfer ein tîm. Gall cadw'r cofnodion hyn, er mwyn cyfeirio'n ôl atynt, ein helpu i gefnogi ein gilydd pan fyddwn yn wynebu penderfyniadau a sefyllfaoedd tebyg.
- **Llyfr log** – Yn ogystal â chadw cofnod personol o'n myfyrdodau byddwn yn cadw llyfr log cyffredinol ble y gall, ac y dylai, pob aelod o staff gadw cofnod rheolaidd o'r hyn sy'n digwydd yn y lleoliad. Bydd cofnodi gwybodaeth yn y modd yma'n caniatáu i staff ddod at ei gilydd a threfnu eu meddyliau, ac yna gwneud sylwadau, myfyrio ar a gwerthuso'r sesiwn chwarae ar y cyd. Mae hefyd yn darparu cofnod hanesyddol y gellir ei ddefnyddio i ddadansoddi digwyddiadau, tueddiadau ac ymddygiadau. Yn olaf, mae'n gweithredu fel cofnod cytûn o'r hyn ddigwyddodd a gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn trafodion ffurfiol.
- **Cofnodion DPP, adolygiadau a goruchwylio staff** – Mae cynnal sesiynau goruchwylio ac adolygiadau blynyddol a gofnodir gyda'r staff, yn arfer dda. Mae trafod llwyth gwaith, bod yn glir am gyfrifoldebau a rolau, galluogi i waith gael ei gynllunio ac i gynnydd gael ei fonitro, a sicrhau y cynllunnir ar gyfer gofynion dysgu a datblygiad proffesiynol, i gyd yn rhan o'r hyn y byddwn yn ei gofnodi i'n helpu i reoli timau a'r gwaith yn llwyddiannus.



# Gwerthuso ansawdd, gwella arfer



Mae gwerthuso ein darpariaeth yn rhan hanfodol o wella ystod ac ansawdd y profiadau y gall plant gael mynediad iddynt. Dylai'r broses hon o archwilio'r amgylchedd ffisegol ac affeithiol a sut y byddwn yn ei hwyluso, fod yn rhan reolaidd o'n rôl fel uwch-weithwyr chwarae.

Mae gwella ansawdd yn broses barhaus ddylai fod yn rhan o arfer pob gweithiwr chwarae. Mae gwella ansawdd ein darpariaeth yn golygu cynnwys y tîm staff cyfan, a dylai'r cwestiwn 'Sut allwn ni gyflawni anghenion chwarae plant yn well?' fod yn nodwedd barhaol o agenda pob cyfarfod tîm staff. Dylai hefyd fod wrth wraidd ein myfyrdodau personol a chyffredinol ar arfer. Fel hyn, byddwn yn creu diwylliant o wella ansawdd ble y bydd pob aelod o staff yn disgwyl cynnal safonau uchel.

Bydd gwelliant, i lawer o weithwyr chwarae, yn digwydd fel arfer trwy gydgasglu sylweddiadau a chipolygon bychain, cyfuno arsylwadau a myfyrdodau personol, gyda rhai ein cydweithwyr, a dealltwriaeth gynyddol o lenyddiaeth gwaith chwarae.

## Pa mor ddeniadol yw'r man chwarae i blant?

Yr ateb mwyaf amlwg i ba mor ddeniadol yw'r man chwarae i blant yw, yn syml iawn, i gyfrif y nifer o blant fydd yn mynychu. Fydd man chwarae gwag ddim yn darparu ar gyfer chwarae unrhyw blentyn, waeth beth yw'r polisïau a'r gweithdrefnau na'r modd y caiff ei redeg. Fodd bynnag, fydd hyn ond yn rhoi bras amcan inni o'i lwyddiant a dim sicrwydd am ei ansawdd. Efallai mai prin yw'r dewisiadau real eraill sydd ar gael neu mai dim ond nifer fechan o blant sydd i gael yn yr ardal y mae'r man chwarae'n ei gwasanaethu. Fydd ffigyrau syml yn dweud dim wrthym am sut y mae'r plant yn ymddwyn a pha lefel o ymgysylltiad sydd ganddynt gyda'r amgylchedd. Ydyn nhw wedi diflasu ac yn ddiegni neu wedi ymgolli'n llwyr yn llif y chwarae?

## Safbwyntiau plant

Mae angen i blant deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu denu i mewn i'r lleoliad. Mae angen iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus bod yr oedolion y maent yn ymddiried ynddynt wedi gwneud popeth yn eu gallu i'w croesawu i mewn i leoliad ysbrydoledig, gaiff ei reoli'n dda, ble caiff eu chwarae ei werthfawrogi a'i warchod.

Fel gweithwyr chwarae, bydd angen inni geisio ystyried lleoliadau o safbwynt plentyn[32]. Bydd gwahanol blant yn gweld lleoliadau'n wahanol. Os gwnewch chi gropian o amgylch y lleoliad chwarae fel y gallwch ei weld o bersbectif ffisegol plentyn pum mlwydd oed, ydi o'n edrych yr un mor ddiddorol a chyffrous os ydych chi ond yn dair troedfedd o daldra? Efallai y gwnawn ni sylweddoli mai'r cyfan y gallwn ei weld yw coesau cadeiriau a byrddau, waliau, neu ofodau gwag eang. Os byddwn yn eistedd yn y mannau ble bydd y plant yn eistedd neu'n cuddio, byddwn yn dechrau gweld y byd trwy eu llygaid hwy.

O gael y rhyddid, mae'n bosibl y bydd plant yn addurno eu mannau chwarae â phethau annisgwyl – gwrthrychau a gafwyd fel olwynion, cerrig wedi eu paentio, sosbenni, hen ddoliau, darn o ddefnydd tlws, lluniau wedi eu torri allan o gylchgronau, fasys yn llawn chwyn, pryfetach neu dywod mewn jariau jam, a hen rannau o beiriannau hyd yn oed. Gallai pethau y bydden ni'n eu hystyried yn hen ddarnau o sbwriel sydd angen eu clirio, fod yn drysorau ym marn y plant.

Pan fyddwn yn pennu ein dangosyddion ar gyfer archwilio'r man chwarae, bydd angen inni ystyried sut y caiff barn y plant am y lleoliad ei dystio yn y modd y caiff ei ddefnyddio a'i addasu. Gall tystiolaeth o ymddygiad chwarae mewn mannau anaddas fod yn arwydd pendant nad yw'r lleoliad chwarae'n cynnig popeth y dylai. Mae chwarae â dŵr mewn toiledau'n enghraifft glasurol nad yw'n cael ei ddarparu mewn man arall. Bydd plant yn neidio oddi ar bethau ble na ddylen nhw, tynnu lluniau ar waliau a drysau toiledau, chwarae â matsis, cynnau tanau, a dod i mewn i'r lleoliad i chwarae pan fydd ar gau. Gall y rhain fod yn arwyddion o ddiffyg darpariaeth chwarae yn hytrach nag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlant yn ceisio chwarae pan nad ydynt yn gallu cael mynediad iddo. Dylem wastad ystyried y tebygolrwydd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arwydd nad yw anghenion chwarae'n cael eu diwallu.

## Perchenogaeth

Mae ymdeimlad plant o berchenogaeth gofod, a'u bod yn teimlo bod ganddynt ganiatâd i chwarae, yn ddangosyddion allweddol bod llawer yn gweithio'n dda mewn lleoliad chwarae. Gallwn ystyried rhai esiamplau o'r mathau o bethau y dylem eu gweld:

- Dylai'r gweithwyr chwarae gael eu hystyried yn rhan o'r dodrefn, fel adnodd, clust i wrando, rhywun fydd yn helpu os ydych chi angen 'sdwff'.
- Dylai'r iaith fod yn iaith y plant. Ni ddylid ei addasu oherwydd bod oedolyn yn bresennol. Dylai'r plant fod â'u henwau eu hunain am y nodweddion penodol a geir yn y lleoliad, fel 'y goeden fawr', 'y siglen fawr', a'r 'guddfan gysgodol'.
- Ni ddylid clywed ceisiadau parhaus am ganiatâd, yn enwedig i ddefnyddio'r toiled, nac am bennau ysgrifennu a phapur. Dylai pob math o bethau sy'n ddiogel i'r plant eu defnyddio fod ar gael iddynt. Mae'n debyg y gwelir llif cyson o blant yn nôl 'sdwff'.
- Mae'n bosibl y daw plant â phethau i mewn o adref a'u gadael yn y lleoliad chwarae fel y gallant eu defnyddio, neu fel y gall eraill eu defnyddio, yn y dyfodol.
- Dylai'r lleoliad gael ei addasu'n barhaus gan y plant, gyda thystiolaeth o greu cuddfannau neu balu tyllau, er enghraifft.
- Mae'n debyg y bydd beiciau, sgwteri, esgidiau rholio, cotiau, hetiau, menyg a sgarffiau wedi eu gadael yma ac acw ar hyd y lle.
- Plant yn coginio neu'n bwyta ac yn nôl gwydraid o ddŵr.
- Dylai'r plant ymddangos yn hapusach, yn fwy annibynnol a hyderus. Mae'n bosibl hefyd y ceir ambell i sesiwn crïo wedi cwymp bychan, neu ambell i ddadl yma ac acw. Yn gyffredinol, dylai'r gofod deimlo fel lle ymlaciol a llawn bywyd yn ei dro, gyda'i rhythm naturiol ei hun.
- Bydd y plant yn warchodol o'r gofod os ydyn nhw'n credu ei fod mewn perygl a byddant hefyd yn cwestiynu ymddangosiad pobl ddieithr yn y lleoliad.

## Risgiau

Mae plant eisiau cymryd risg fel rhan o'u chwarae. O fân-ansicrwydd gêm o pip-po i gêm gwrso gyflym ar hyd strwythur tal, neu anfon neges gyfrinachol i rywun yr wyt yn ei hoffi, i berfformiad cyntaf sioe dalent byrfyfyr, bydd rhyw lefel o risg wastad yn bresennol mewn chwarae plant. Yn wir, rydym wedi gweld mai un elfen o wir natur chwarae yw cyfaddasu ac ymdopi ag ansicrwydd a newid, a hynny'n aml trwy fynd ati'n fwriadol i gyflwyno ansicrwydd, a thrwy hynny rywfaint o risg, i'r chwarae[33].

Gallai cyfleoedd ar gyfer risgiau deallusol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol, gynnwys:

- Dringo, neidio neu siglo o uchder
- Cwrdd â phobl newydd, datblygu a chynnal perthnasau
- Rhedeg, seiclo, neu lithro'n gyflym iawn
- Creu a chymryd rhan mewn perfformiad
- Defnyddio offer fel llifiau
- Ymgymryd â datrys problemau dyrys
- Rhyngweithio ag elfennau allai fod yn beryglus, fel dŵr a thân
- Profiadau o'r tywyllwch, a straeon codi ofn
- Reslo a chwarae gwyllt.

Tra gallwn arsylwi'r mwyafrif o risgiau corfforol, bydd asesu os oes risgiau cymdeithasol ac emosiynol ar gael yn anoddach. Gall y risgiau hyn ddigwydd ar eu pen eu hunain ond, bron yn anochel, byddant hefyd yn ymddangos ar y cyd â risgiau corfforol. Er enghraifft, bydd plentyn sy'n penderfynu os yw am neidio oddi ar siglen uchel o flaen ei gyfoedion yn cymryd risg â'i statws yn ogystal â'r risg amlwg o niwed corfforol.

Bydd awyrgylch cefnogol, anfarnol, ble na fydd plant yn wynebu bod yn destun sbort neu gael eu beio, yn golygu y bydd y plant yn teimlo'n fwy parod i gymryd risgiau emosiynol. Dylem chwilio am dystiolaeth o blant yn arbrofi ag ymddygiadau newydd, rhoi tro ar bethau am y tro cyntaf, ac ymddangos yn annibynnol, hyderus, ymddiriedus a chartrefol[34].

## Gweithwyr chwarae fel archwilwyr

Edrych, gwrando, dysgu a chofnodi.

Dylai'r dulliau archwilio y byddwn yn eu defnyddio gynnwys ffyrdd i gynnal arsylwadau manwl gywir, wedi eu hamseru a'u cofnodi o blant yn chwarae'n ystod sesiwn.

Mae'n werth monitro, o dro i dro, yr hyn sy'n digwydd pan fydd y plant yn cyrraedd ein lleoliad. Sut fyddwn ni'n eu croesawu? Beth fyddan nhw'n ei weld wrth ddod i mewn i'r gofod am y tro cyntaf? At beth fyddan nhw'n tynnu? Pa ofodau fyddan nhw'n eu poblogi gyntaf a pha ofodau fyddan nhw'n eu hosgoi? Os fydd rhiant neu ofalwr am siarad â rhywun, a oes gweithiwr chwarae ar gael i wrando arnynt? Sut mae plentyn unigol penodol yn teimlo heddiw?

Gall plant fod yn oriog ac ymddwyn yn wahanol o un dydd i'r llall. Weithiau gallant fod yn groes i'w cymeriad oherwydd iddynt brofi rhywbeth, yn ganfyddedig neu'n real, ers inni eu gweld ddiwethaf. Fydd pob plentyn ddim yn cyrraedd yn teimlo'n fywiog ac yn barod i chwarae bob dydd. Mae'n bwysig inni gydnabod a darparu ar gyfer yr ystod o deimladau a hwyliau y bydd plant unigol yn dod â hwy i'r lleoliad.

Dylem hefyd arsylwi a chofnodi defnyddio, neu ddiffyg defnyddio, gofodau ac adnoddau. Mae'n bosibl y bydd ardal sy'n cael fawr ddim defnydd angen ei chyfoethogi ar gyfer y synhwyrau, chwistrelliad o liw, rhywfaint o rannau rhydd neu'n syml iawn, efallai bod angen iddi fod yn fwy hygyrch i rai o'r plant.

Dylid gwirio ôl traul ar adnoddau yn ogystal â pha mor aml y mae rhaid amnewid adnoddau. Gall dysgu pa adnoddau sydd angen eu hailgyflenwi'n barhaus, neu beidio, roi gwybodaeth ddefnyddiol inni yn cynnwys sut y maent yn cael eu defnyddio. Dylid cynllunio'n ofalus ar gyfer adnoddau fydd angen eu hamnewid, yn enwedig y rheini fydd ag oblygiadau cost sylweddol. Fyddwn ni ond yn gwybod hyn i gyd os byddwn wedi cwblhau rhestrau stoc yn rheolaidd.

Mae patrwm y gofod, ble mae pethau wedi eu gosod, a'r modd y mae'r plant wedi addasu'r gofodau ac wedi symud pethau o amgylch, i gyd yn gliwiau i angen plant i chwarae a'u hoff ddewisiadau chwarae personol. Gall ffasiynau, diddordebau a dylanwadau newydd, ynghyd â demograffeg newidiol i gyd ddylanwadu ar y modd y byddwn yn cynllunio a gweithredu yn y dyfodol ac mae angen inni fod yn hyblyg a pharod i newid mewn ymateb.

Gall cofnodi canlyniadau archwiliadau chwarae rheolaidd dros gyfnod o amser helpu i hysbysu rheolaeth tymor canolog a thymor hir y ddarpariaeth chwarae a rheolaeth y mudiad chwarae.

Bydd arsylwi plant yn rheolaidd yn golygu na fyddwn ni'n ymddangos yn wahanol yn sydyn. Os byddwn yn newid ein patrwm ymddygiad gwaith arferol a chrwydro o gwmpas gyda chlipfwrdd, bydd y plant yn stopio chwarae a fyddwn ni ddim yn cofnodi eu hymddygiad naturiol. Gall defnyddio pad ysgrifennu neu recordio ein meddyliau ar ffôn fod yn ddulliau defnyddiol ar gyfer cofnodi'r eiliad, cyn belled nad ydym yn ymwthgar. Ddylen ni fyth adael i'n hangen i gasglu gwybodaeth ymyrryd yn sylweddol â hawl plant i chwarae. Os byddwn yn cario ein hoffer arsylwi gyda ni, yna gallwn gofnodi pethau wrth iddynt ddigwydd yn ogystal â chynllunio pryd a ble y byddwn yn cynnal arsylwadau. Pa fodd bynnag y penderfynwn arsylwi'r plant, os cawn ein gweld yn gwneud hynny'n rheolaidd bydd y plant â llai o ddiddordeb yn yr hyn yr ydym yn ei wneud a byddant, yn syml, yn bwrw ymlaen â'u chwarae.


Mae casglu gwybodaeth am y man chwarae'n hanfodol wrth werthuso ansawdd ac arfer. Yn ogystal, bydd angen i'r wybodaeth hon ymgorffori myfyrdodau gweithwyr chwarae ar eu harfer. Mae arfer myfyriol yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw ein hagweddau, ein syniadau, neu hyd yn oed ein bwriadau da yn cael effaith niweidiol ar y gofod a'r chwarae a geir ynddo. Mae'n hawdd, dros amser, inni syrthio i arferion penodol, ymgorffori rheolau fel rhai cyffredinol pan oeddent, ar y cychwyn, yn benodol i gyd-destun neu ganiatáu i rywbeth ddod yn arferiad a hynny heb fawr ddim ystyriaeth. Gall neilltuo amser i fyfyrio fel tîm o staff ar yr ystod hon o bethau sicrhau bod y cynnig gwaith chwarae'n un llawn bwriad a'ch bod yn sicr o'i ansawdd.

## Dewis offeryn gwerthuso

Mae amrywiaeth o offer a dulliau ar gael all ein cynorthwyo i benderfynu effeithlonrwydd ein prosiect. Mae'r offer hyn yn amrywio o ran cwmpas a chymhlethdod a chyrhaeddiad y ddamcaniaeth sy'n sail iddynt, ond mae pob un o'r rhai da yn mynnu y dylai'r plentyn yn chwarae fod wrth galon y broses. Hynny yw, ydi'r ddarpariaeth chwarae'n cynnig amgylchedd diogel, cyfoethog a hyblyg sydd yn wirioneddol agored i bob plentyn ble gallant fynegi ystod gyflawn o ymddygiadau chwarae?

Bydd rhaid i unrhyw offeryn y byddwn yn ei ddefnyddio i fesur ansawdd allu barnu'n gywir yr hyn yr ydym yn ei wneud yn erbyn yr hyn y dylem fod yn ei wneud. Mae hyn yn golygu bod rhaid i sut y byddwn yn cofnodi ein harfer fod yn gywir, yn gynrychiadol ac yn hydrin, a bydd rhaid inni ei fesur yn erbyn egwyddorion sy'n ddilys, perthnasol ac eglur. Yn y pen draw, waeth pa ddull a ddewiswn ar gyfer gwerthuso ansawdd, bydd rhaid inni sicrhau ei fod yn mesur yr hyn sy'n arbennig a neilltuol am waith chwarae.

Ceir hyd i enghreifftiau da o gynlluniau asesu neu sicrhau ansawdd trwy ymweld â gwefannau mudiadau chwarae cenedlaethol yn y DU.



## Casgliad

Fydd sefydlu, datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae ddim yn dasg fechan. Mae rôl yr uwch-weithiwr chwarae'n amrywiol ac yn galw am gasgliad eang o sgiliau. Mae'r rheini sydd â chyfrifoldeb rheolaethol am brosiect gwaith chwarae'n debyg o fod â nifer o ddyletswyddau eraill fydd yn eu tynnu oddi wrth weithio uniongyrchol gyda phlant ond sydd i gyd yn allweddol ar gyfer trosglwyddiad parhaus darpariaeth gwaith chwarae o ansawdd uchel. Mae rhaid i'r rheolwr gwaith chwarae sicrhau bod yr elfennau sylfaenol i gyd yn eu lle cyn trosglwyddo'r gwasanaeth a bod trefniadau gwaith angenrheidiol yn cael eu cynnal trwy gydol oes y prosiect. Maent yn gyfrifol hefyd am enw da a phroffil y ddarpariaeth ac, efallai'n bwysicaf oll, am gadw pethau'n ddiddorol ac yn gyffrous ar gyfer y plant. Wrth gwrs, all un person ddim gwneud hyn i gyd ar ei ben ei hun a bydd llwyddiant y ddarpariaeth yn dibynnu ar gryfder y tîm staff.

Mae rôl yr uwch-weithiwr chwarae'n galw am fod yn drefnus, cyfathrebu, dyfeisgarwch, gwybodaeth, profiad a brwdfrydedd. Tra gall y rôl fod yn un drom, caiff uwch-weithwyr chwarae gyfle i ffurfio'r ddarpariaeth y maent yn gyfrifol amdani ac i hybu nodau ac amcanion yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

## Cyfeiriadau


[1] Wood, A. a Kilvington, J. (2010) *Reflective Playwork*. Llundain: Continuum.

[2] Prifysgol Oregon (1999) *Definition of Diversity*.

[3] Nicholson, S. (1971) How Not to Cheat Children: The Theory of Loose Parts, *Landscape Architecture* 62, 30-35, td.30.

[4] Hughes, B. (2001) *Yr Hawl Cyntaf… fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae.* Caerdydd: Chwarae Cymru, ac Ely: Play Education, td.28.

[5] Hughes, B. (2012) *Evolutionary Playwork*. 2[il] argraffiad. Abingdon: Routledge.

[6] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) *General Comment No. 17 (2013) on the right of the child to rest, leisure, play, recreational activities, cultural life and the arts (article 31)* CRC/C/GC/17. Genefa: Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[7] Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change: Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: National Children's Bureau.

[8] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019) What is the Equality Act?

[9] Wilson, P. (2008) '…and inclusion'. Yn: F. Brown ac C. Taylor, gol. 2008. *Foundations of Playwork*. Maidenhead: Open University Press. Pen.50.

[10] McIntyre, S. a Casey, T. (2007) People Playing Together More. Adroddiad ymchwil heb ei gyhoeddi. Caeredin: The Yard, td.2.

[11] *Play for a Change: Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*.

[12] *Reflective Playwork*.

[13] Davies, S. (2012) *Play Our Way*. The Bevan Foundation.

[14] Ball, D., Gill, T. a Spiegal, B. (2012) *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*. Llundain: National Children's Bureau ar ran Play Safety Forum.

[15] Jones, M. (2000) *A Textbook on Torts*. 7[fed] argraffiad. Llundain: Blackstone Press. Cyfeiriadau

[16] Young, D. (2010) *Common Sense Common Safety*. Llywodraeth EM (Hawlfraint y Goron).

[17] *Common Sense Common Safety*.

[18] Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo agwedd gytbwys*.

[19] *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, td.4.

[20] Ball, D. J. a Ball-King, L. (2011) *Public safety and risk assessment*. Llundain: Earthscan, td. 136.

[21] *Public safety and risk assessment*, td.88.

[22] *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, td.59.

[23] *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, td. 65.

[24] *Public safety and risk assessment*.

[25] *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*.

[26] PLAYLINK (2006) *Negligence play and risk – legal opinion*.

[27] *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, td. 2.



[28] *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, td. 56.

[29] Gill, T. (2010) *Nothing Ventured … Balancing risks and benefits in the outdoors*. English Outdoor Council, td.14.

[30] Llywodraeth EM (2013) *Working Together to Safeguard Children: A guide to interagency working to safeguard and protect the welfare of children*.

[31] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (dim dyddiad) 'SME web hub – advice for all small organisations'.

[32] *Evolutionary Playwork*.

[33] *Play for a Change: Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*.

[34] *Yr Hawl Cyntaf … fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*.

## Nodiadau

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru

Mehefin 2021